



# YMgyngghoriad Statudol

## Cynnig i ad-drefnu Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Wood Memorial

- Cau Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Wood Memorial o 31 Awst 2027.
- Sefydlu ysgol gynradd gymunedol newydd wedi'i huno, a fydd yn gweithredu i ddechrau ar draws safleoedd y ddwy ysgol bresennol, o 1 Medi 2027.
- Datblygu, yn amodol ar ganiatâd cynllunio a chadarnhad o gyllid, ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg newydd bwrpasol gyda 315 o leoedd (gan gynnwys 30 lle meithrin cyfwerth ag amser llawn) ar safle presennol Ysgol Saltney Wood Memorial, gyda dyddiad agor disgwylidig o 1 Medi 2030.

## Mehefin 2026

## Ymgynghoriad ynghylch ad-drefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood

Cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac agor ysgol newydd a gynhelir a fydd yn gweithredu ar y ddau safle presennol tra bod adeilad newydd yn cael ei gymeradwyo a'i adeiladu.

<b>A. TROSOLWG</b>	<b>Tudalen</b>
A1. Rhagarweiniad	4
A2. Trosolwg o'r Cynnig	4
A3. Gofynion ymgynghori	5
A4. Gyda phwy fyddwn yn ymgynghori?	5
A5. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad	7
A6. Manylion Cyswllt	9
A7. Beth fydd yn digwydd nesaf?	9

<b>RHAN B – YR ACHOS O BLAID NEWID</b>	<b>Tudalen</b>
B1. Rhesymau dros Newid	11
B2. Cefndir y cynnig	11
B3. Sut cyrhaeddodd ni yma?	12
B4. Y Sefyllfa Bresennol	12
B15 Lleoliad Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood	16
B6. Gwybodaeth Ddemograffig	17
B7. Amcanestyniadau Disgyblion	19
B8. Ansawdd y Ddarpariaeth Addysg	22

<b>RHAN C - Y CYNNIG</b>	<b>Tudalen</b>
C1. Beth sy'n cael ei gynnig?	25
C2. Beth fydd y cynnig yn ei ddarparu?	25
C3. Pa bryd gaiff y cynnig ei roi ar waith?	26
C4. Cost y Cynnig	26
C5. Dewisiadau a Ystyriwyd	28

<b>RHAN D – EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG</b>	<b>Tudalen</b>
D1. Effaith ar yr Amgylchedd Lleol	32
D2. Effaith ar Ddisgyblion o Gefndiroedd Difreintiedig yn Economaidd	34
D3. Effaith ar Dderbyniadau	34

D4. Effaith ar Gludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol	35
D5. Effaith ar Drosoglwyddo i'r Ysgol Uwchradd	36
D6. Effaith ar Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol	36
D7. Effaith ar Drefniadau Llywodraethu	37
D8. Effaith ar Staffio	37
D9. Effaith ar Ysgolion Eraill	38
D10. Risgiau'r Prosiect	39
D11. Asesiad Effaith Integredig	41
D12. Effaith ar y Ddarpariaeth Gymraeg	41
D13. Effaith ar yr Adeiladau	42
D14. Trefniadau yn y Cyfamser	42

Mae copïau caled o'r ddogfen ymgynghori hefyd ar gael ac os bydd arnoch angen copi ar bapur neu ar ffurf fformat gwahanol fel Braille neu brint bras, neu os oes arnoch angen cymorth i ddehongli'r ddogfen mewn iaith arall, cysylltwch â'r Tîm Moderneiddio Ysgolion ar 01352 704018/01352 704014, neu e-bostiwch [saltneyconsultations@flintshire.gov.uk](mailto:saltneyconsultations@flintshire.gov.uk).

## Ymgynghoriad ynghylch ad-drefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood

**Cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac agor ysgol newydd a gynhelir a fydd yn gweithredu ar y ddau safle presennol tra bod adeilad newydd yn cael ei gymeradwyo a'i adeiladu.**

---

### A. TROSOLWG

---

#### A1. Rhagarweiniad

---

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn rhoi gwybodaeth ar gynnig sy'n cael ei hystyried gan Gyngor Sir y Fflint ("y Cyngor") i ad-drefnu darpariaeth ysgolion cynradd yn ardal Saltney. Y bwriad ydi galluogi budd-ddeiliaid a phartïon eraill sydd â diddordeb i ddeall y cynnig, a lleisio eu barn cyn y gwneir unrhyw benderfyniad.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldebau statudol dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ystyried cynigion i ad-drefnu ysgol pan fo hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau darpariaeth addysg effeithlon ac effeithiol. Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), mae'r Cyngor yn ymgymryd â'r ymgynghoriad statudol hwn cyn pennu a ddylai barhau.

Byddai'r cynnig dan sylw yn cynnwys cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, a sefydlu ysgol gynradd gymunedol newydd. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, a'r prosesau statudol dilynol, byddai'r ysgol newydd yn gweithredu ar ddau safle presennol i ddechrau, pan fo cynigion i adeiladu ysgol newydd yn mynd rhagddynt.

Nid oes penderfyniad wedi cael ei wneud ar y cam hwn. Nid yw'r Cyngor wedi gwneud penderfyniad am ganlyniad y broses eto, a bydd yr holl farn a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cael ei hystyried yn ofalus, cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno cefndir y cynnig, y dewisiadau a ystyrir, a'r effeithiau posib ar ddysgwyr, staff a'r gymuned ehangach, er mwyn cefnogi cyfranogiad gwybodus yn ystod y broses ymgynghori.

---

#### A2. Trosolwg o'r Cynnig

---

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar gynnig i ad-drefnu darpariaeth ysgol gynradd yn Saltney er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â gormod o leoedd, addasrwydd yr adeilad, cynaliadwyedd hirdymor, a defnydd effeithlon adnoddau cyhoeddus.

Os yw'n cael ei gymeradwyo yn dilyn ymgynghoriad, a chwblhau prosesau statudol, bydd y cynnig y cael ei gyflawni drwy:

- Gau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, o 31 Awst 2027.
- Sefydlu ysgol gynradd gymunedol gyfunol newydd, gan weithredu ar ddau safle ysgol presennol i ddechrau, o 1 Medi 2027.
- Datblygu, yn amodol ar ganiatâd cynllunio a chadarnhad o'r cyllid, ysgol gynradd gymunedol bwrpasol newydd, ffrwd Saesneg, â 315 o leoedd (gan gynnwys 30 o leoedd meithrin cyfwerth â llawn amser) ar safle presennol Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, gyda'r bwriad o agor ar 1 Medi 2030.

Byddai'r cynnig yn cael ei gefnogi gan fuddsoddiad cyfalaf o oddeutu £12.5 miliwn, yn amodol ar ganiatâd Llywodraeth Cymru, drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Cynhelir yr ymgynghoriad ar y cyd gydag ymgynghoriad ar wahân, sy'n ymwneud â'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Gatholig Sant Anthony yn Saltney. Ystyrir pob cynnig yn ôl ei rinweddau ei hun.

---

### **A3. Gofynion Ymgynghori**

---

Mae'r ddogfen hon yn fodd i Gyngor Sir y Fflint (y Cyngor) gyflawni ei gyfrifoldebau dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ymgynghori â budd-ddeiliaid perthnasol wrth ystyried unrhyw ad-drefnu arwyddocaol mewn ysgol.

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2026 yn disgrifio nifer o addasiadau mewn ysgolion a gynhelir sy'n destun rheoleiddio, a rhaid peidio â'u cyflawni heb fod yr awdurdod lleol perthnasol a/neu'r corff llywodraethu wedi cyflawni gofynion y Cod.

Mae angen dilyn gweithdrefnau statudol fel arfer er mwyn gwneud newidiadau sylweddol mewn ysgolion. Lluniwyd y gweithdrefnau fel bod modd gwneud newidiadau os bernir eu bod yn angenrheidiol, ond mewn ffordd sy'n diogelu buddiannau dysgwyr ac sy'n galluogi pobl â diddordeb i gael cyfle i leisio'u barn; mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r gweithdrefnau hyn yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2026 ("y Cod").

Bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn para 42 diwrnod, gydag o leiaf 20 o'r rheiny yn ddiwrnodau ysgol.

Yn unol â'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru, ac Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael gwybodaeth, i leisio eu barn ar faterion sy'n eu heffeithio, ac i'r barnau hynny gael eu hystyried yn briodol.

Er mwyn cefnogi cyfranogiad ystyrion, bydd y Cyngor yn ymgysylltu gyda disgyblion o Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Wood yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd yr ymgysylltiad yn addas o ran oedran, ac yn gynhwysol, gan ystyried anghenion cyfathrebu gwahanol y disgyblion, yn ogystal â'u lefel dealltwriaeth. Bydd gweithgareddau'n cynnwys trafodaethau a hwylusir, ac ymarferion adborth â strwythur, a gefnogir gan yr ysgol a staff y cyngor.

Mae fersiwn sy'n addas i'r disgyblion o'r ddogfen ymgynghori hon wedi cael ei llunio er mwyn esbonio'r cynnig mewn iaith hygyrch, ac i helpu'r disgyblion i ffurfio barn wybodus. Bydd cyfleoedd yn cael eu cynnig i ddisgyblion leisio eu barn drwy sylwadau ysgrifenedig, neu drafodaethau a hwylusir, fel y bo'n briodol i'w hoedran, a cham eu datblygiad.

Bydd sylwadau'r plant a'r bobl ifanc yn cael eu cofnodi a'u crynhoi o fewn Adroddiad Ymgynghori a gyflwynir i'r Cabinet. Er nad oes gofyn i'r disgyblion wneud penderfyniadau, bydd ystyriaeth ddyledus yn cael ei rhoi i'w barn, ynghyd ag ymatebion eraill i'r ymgynghoriad pan mae'r Cyngor yn ystyried a ddylid parhau i gam nesaf y broses statudol.

---

### **A4. Gyda phwy fyddwn yn ymgynghori?**

---

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal rhwng **dydd Mawrth 16 Mehefin 2026** ac yn dod i ben am **11:59yh ddydd Mercher 29 Gorffennaf**. Mae'n rhaid cynnal yr ymgynghoriad am o leiaf 42 o ddiwrnodau ac mae'n rhaid i o leiaf 20 o'r rheiny fod yn ddiwrnodau ysgol.

Anfonwyd y ddogfen ymgynghori ffurfiol hon at amrywiaeth helaeth o ymgynghoreion, gan gynnwys:

Ymgynghoreion	Yn derbyn y ddogfen/ trwy:
rhieni (a darpar rieni lle bo modd), gofalwyr a gwarcheidwaid y dysgwyr sy'n mynychu'r ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn ystyried y byddent yn cael eu heffeithio gan y cynigion;	Trwy'r ysgolion: Saltney Ferry C.P Saltney Wood Memorial C.P
yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae'r dysgwyr fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno;	
aelodau o staff yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn credu y gallai'r cynigion effeithio arni;	Trwy'r ysgolion: Saltney Ferry C.P Saltney Wood Memorial C.P
yr awdurdod cynnal neu'r awdurdod cynnal arfaethedig ar gyfer yr ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn credu y byddai'r cynigion yn effeithio arnynt (gan gynnwys timau cludiant a phriffyrdd);	Cyngor Sir y Fflint
unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys rhai yn Lloegr, lle bo hynny'n briodol) y mae'r cynigiwr yn credu bod y cynigion yn debyg o effeithio arnynt gan gynnwys, yn achos DDdY penodol, unrhyw awdurdod sy'n lleoli disgyblion gydag ADY yn yr ysgol sy'n destun y cynigion;	Cyngor Gorllewin a Chaerlleon Swydd Gaer a Chaer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal ble mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigiwr yn credu y gallai'r cynigion effeithio arnynt;	Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru Llanelwy Esgobaeth Gatholig Wrecsam
unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn credu y gallai'r cynigion effeithio arni;	N/A
corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn credu y gallai'r cynigion effeithio arni;	Corff Llywodraethu: Saltney Ferry C.P Saltney Wood Memorial C.P Ysgol Gynradd Gatholig San Antonio Broughton C.P Ysgol Gynradd Sirol Lache
Gweinidogion Cymru;	
Aelodau o'r Senedd (AS) ac Aelodau Seneddol (AoS) sy'n cynrychioli'r ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud;	<b><u>Aelodau o'r Senedd (AS):</u></b> Cristiana Emsley; Carrie Harper; Marc Jones; Sam Rowlands; Ken Skates; Nigel Williams; Louise Emery; Llyr Gruffydd; Becca Martin; Adrian Mason; Darren Millar; Tom Montgomery <b><u>Aelodau Seneddol (ASau Senedd y DU):</u></b>

	Sir Mark Tami; Becky Gittins; Aphra Brandreth
Estyn;	Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
undebau athrawon ac undebau llafur staff sy'n cynrychioli'r athrawon ac aelodau eraill o staff mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion;	Cynrychiolwyr NASUWT; NEU; UCAC; ASCL; UNISON
y gwasanaethau gwella ysgolion perthnasol;	
Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud;	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
unrhyw gyngor tref neu gymuned ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud;	Cyngor Tref Saltney
yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a / neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant os ydynt yn bodoli;	
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yr awdurdod lleol, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol sy'n debygol o gael eu heffeithio a'r sefydliadau ymbarél cenedlaethol sy'n eu cefnogi, Mudiad Meithrin, NDNA Cymru, Clybiau Plant Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru, PACEY Cymru a Chwarae Cymru;	Clwb Hampus Eglwys Fethodistaidd Saltney Woody Wraparound Saltney Small Steps
yn achos cynigion sy'n effeithio ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY), unrhyw gorff iechyd neu drydydd sector perthnasol y mae'r cynigiwr yn credu bod ganddynt fuddiant;	SNAP Cymru Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgolion sy'n destun y cynigion;	Coleg Cambria
yn achos cynigion sy'n effeithio ar chweched dosbarth ysgolion, Medr; ac	Medr: Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg a Mentrau Iaith.	
Arall	Pob Cyngorydd Cyngor Sir y Fflint

Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar wefan Cyngor Sir y Fflint ac fe'i gwelir drwy ddilyn y ddolen isod:

<https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Proposal-To-Reorganise-Saltney-Ferry-C.P-And-Saltney-Wood-Memorial-C.P.aspx>

## A5. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Mae eich barn ynglŷn â'r cynnig i aildrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn bwysig i ni. Mae ar y Cyngor eisiau i chi gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn a dweud wrthym ni beth ydych chi'n feddwl o'r cynnig, yn enwedig os yw'n mynd i effeithio arnoch chi neu'ch plant.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod y broses ymgynghori yn deg, yn agored ac yn gynhwysol. Bydd yr ymatebion a dderbynnir o fewn cyfnod ymgynghori yn cael ystyriaeth gyfartal a byddant yn cael eu dadansoddi'n wrthrychol. Bydd y sylwadau a fynegir yn ystod yr ymgynghoriad yn nodi'r Adroddiad Ymgynghori a fydd yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.

Mae'r Cyngor yn awr yn cynnal prosesau ymgynghori statudol â'r holl fudd-ddeiliaid i sicrhau bod y Cyngor yn penderfynu ar sail yr holl wybodaeth berthnasol.

Dyma amserlen yr ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cynigion statudol:

Dechrau'r Cyfnod Ymgynghori Statudol	Diwedd y Cyfnod Ymgynghori Statudol	Cyfnod Ymgynghori
dydd Mawrth 16 Mehefin 2026	dydd Mercher 29 Gorffennaf 2026	42 o ddiwrnodau (ac o leiaf 20 o'r rheiny'n ddiwrnodau ysgol)

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad trwy lenwi'r holiadur ar-lein sydd ar gael ar ein gwefan neu drwy ddilyn y ddolen hon:

[Dilynwch y ddolen hon](#)



Dilynwch y Cod QR hwn

Mae copi papur o'r holiadur hefyd ar gael yng nghefn y ddogfen hon. Fel arall, gallwch ymateb yn ysgrifenedig trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt dros y dudalen.

Mae fersiwn hawdd i'w darllen ar wahân o'r ddogfen ymgynghori hon ar gael er mwyn cefnogi budd-ddeiliaid i ddeall y ffeithiau allweddol sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

Gellir gofyn am fersiynau o'r ddogfen ar ffurf print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwch yn cael ymateb yn yr un iaith. Ni fydd y defnydd o'r naill iaith yn arwain at oedi.

Er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, lluniwyd fersiwn o'r ddogfen sy'n addas i'w hoedran a lefel debygol eu dealltwriaeth. Mae'n cyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd gyfeillgar sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ddod i benderfyniad gwybodus.

Rhaid derbyn pob ymateb erbyn **11:59yh ddydd Mercher 29 Gorffennaf 2026**.

Nid yw'r Cyngor yn bwriadu cynnal unrhyw ddigwyddiadau galw heibio i'r cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Yn lle hynny, gellir anfon cwestiynau trwy e-bost i [saltneyconsultations@flintshire.gov.uk](mailto:saltneyconsultations@flintshire.gov.uk) a bydd Swyddogion y Cyngor yn ceisio ymateb i gwestiynau ynglŷn â'r broses cyn pen saith o ddiwrnodau gwaith.

Trefnwyd digwyddiadau ar gyfer staff a llywodraethwyr yn yr ysgolion dan sylw.

---

## A6. Manylion cyswllt

---

Dylid anfon bob ymateb i'r cyfeiriad canlynol:

Y Tîm Moderneiddio Ysgolion  
Cyngor Sir y Fflint  
Tŷ Dewi Sant  
Parc Dewi Sant  
Ewlo  
Sir y Fflint  
CH5 3XT

E-bost: [saltneyconsultations@flintshire.gov.uk](mailto:saltneyconsultations@flintshire.gov.uk)

Rhif ffôn: 01352 704018 neu 01352 704014

Bydd blwch post ar gael yn nerbynfa Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd 'rhain ar gael nes diwrnod olaf tymor yr ysgol.

Yn dilyn y dyddiad hwn, bydd y blwch post i'w ganfod yn nerbynfa Tŷ Dewi Sant, lle gellir parhau i gyflwyno ymatebion papur nes diwedd y cyfnod ymgynghori.

---

## A7. Beth fydd yn digwydd nesaf?

---

Yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei baratoi yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd, ac ystyriaeth y Cyngor o'r materion a godwyd. Ni fydd yr adroddiad yn gwneud unrhyw dybiaethau am ganlyniad yr ymgynghoriad.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori ac yn penderfynu a yw'n dymuno symud ymlaen i'r cam statudol nesaf. Nid yw'r ymatebion a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori'n cynrychioli gwrthwynebiad ffurfiol o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Os Cabinet y Cyngor yn rhoi sêl bendith ar y rhan gyntaf o'r broses, cyhoeddir **Hysbysiad Statudol** a bydd gan bobl 28 o ddiwrnodau i gyflwyno gwrthwynebiadau ffurfiol yn ysgrifenedig. I gyfrif fel gwrthwynebiadau Statudol, **rhaid** iddynt fod wedi'u gwneud yn ysgrifenedig a'u hanfon drwy'r post neu e-bost i'r cyfeiriadau uchod cyn pen 28 o ddiwrnodau.

Wedi i gyfnod yr Hysbysiad Statudol ddod i ben, byddai angen i Gabinet y Cyngor ystyried adroddiad arall o'r enw'r **Adroddiad Gwrthwynebiadau**, a fyddai'n crynhoi unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd a'r materion a godwyd, ynghyd ag ymateb y Cyngor iddynt. Ar sail hynny, bydd y Cabinet yn penderfynu gweithredu'r cynnig neu beidio. Bydd yr adroddiad hefyd ar gael i bawb ei ddarllen ar wefan y Cyngor a gellir gwneud cais am gopi caled.

Bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu cymeradwyo'r cynnig neu beidio ar ôl ystyried yr Adroddiad Gwrthwynebiadau.

Ar ôl y penderfyniad, anfonir copi electronig o'r **Hysbysiad o Benderfyniad** at yr holl fudd-ddeiliaid a nodir yn y rhestr ohebu cyn pen saith o ddiwrnodau wedi'r penderfyniad.

Dyma'r amserlen arfaethedig ar gyfer penderfynu wedi'r drefn ymgynghori ffurfiol:

<b>Camau o'r Broses</b>	<b>Dyddiadau Allweddol</b>
Y Cabinet yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad ac yn penderfynu a ddylid symud ymlaen â'r cynigion	Medi 2026
Y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad statudol a chychwyn cyfnod gwrthwynebu (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet)	Hydref 2026
Y Cabinet yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebu ac yn penderfynu p'un a ddylid gweithredu'r cynigion ai peidio	Ionawr 2027
Llythyr hysbysiad o'r penderfyniad yn cael ei gyhoeddi gyda chanlyniad penderfyniad y Cabinet	Ionawr 2027

Mae gweddill y ddogfen ymgynghori'n cyflwyno'r sail resymegol ar gyfer y newidiadau a gynigir wrth aildrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Dymunwn ichi ystyried y wybodaeth yn y ddogfen hon a lleisio'ch barn o blaid neu yn erbyn y cynigion.

## **RHAN B – YR ACHOS O BLAID NEWID**

Bwriad y wybodaeth yn yr adran hon yw egluro cyd-destun datblygu'r cynnig. Nid yw'n cynrychioli penderfyniad terfynol a'r bwriad yw cefnogi ymgysylltiad ar sail gwybodaeth gyda'r broses ymgynghori.

---

### **B1. Rhesymau dros newid**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am adolygu a moderneiddio darpariaeth ysgolion, er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfleoedd gorau posibl, fel y gallant gyflawni eu potensial. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod nifer ddigonol o leoedd mewn ysgolion, o'r math cywir, yn y lleoliadau cywir.

Drwy adolygiad parhaus o ddarpariaeth addysg gynradd yn Saltney, nodwyd bod angen sicrhau cynaliadwyedd hirdymor a chanlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Cyngor yn ystyried bod angen:

- Lleihau nifer y lleoedd gwag
- Gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu
- Sicrhau trefniadau arweinyddiaeth cryf a chynaliadwy.
- Darparu addysg o ansawdd uchel i blant rhwng 3 ac 11 oed drwy ddarpariaeth ysgol effeithiol ag adnoddau da.
- Cefnogi datblygiad y Gymraeg a chyfleoedd dwyieithog ymhellach

---

### **B2. Cefndir y Cynnig**

Mae'r Cyngor yn cadw darpariaeth ysgolion o dan adolygiad rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu ei ddyletswyddau statudol i ddysgwyr, yn darparu gwerth am arian, ac yn parhau'n gynaliadwy dro y cyfnod hwy. Mae'r broses adolygu'n ystyried safonau addysgol, cyflwr ac addasrwydd adeiladau'r ysgolion, lefelau capasiti dros ben, tueddiadau demograffig, datblygiadau tai lleol, a chyfleoedd i gael mynediad at fuddsoddiad allanol.

Yn ardal Saltney, mae'r adolygiad wedi nodi cyfuniad o leoedd gwag sylweddol, adeiladau ysgol hŷn, a chyfyngiadau o ran addasrwydd y llety presennol, yn ogystal ag absenoldeb datblygiad tai lleol. Mae'r ffactorau hyn wedi arwain y Cyngor i ystyried a yw'n ofynnol cyflwyno'r newidiadau i'r trefniadau presennol.

Mae'r cynnig a nodi yn y ddogfen hon yn cynrychioli un o'r dewisiadau a nodwyd drwy'r broses adolygu. Mae'r Cyngor yn ceisio safbwyntiau a yw'r dewis hwn yn cynrychioli'r ffordd orau o symud ymlaen er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

Mae'r Cyngor yn cynnig cyflawni'r ad-drefnu drwy:

- Gau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.
- Sefydlu ysgol gynradd gyfunol sengl, a fyddai'n gweithredu ar ddau safle ysgol presennol i ddechrau, tra bod yr ysgol newydd arfaethedig yn cael ei chymeradwyo a'i hadeiladu.
- Agor Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg newydd â lle i 315 o ddisgyblion ar dir Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Byddai'r ysgol yn gweithredu gyda Nifer Derbyn o 45 disgybl fesul grŵp blwyddyn, a byddai'n cynnwys darpariaeth ar gyfer 30 o leoedd meithrin cyfwerth â llawn amser.

### B3. Sut cyrhaeddom ni yma?

Cynhaliodd Gyngor Sir y Fflint ymgynghoriad anffurfiol ym mis Mehefin-Gorffennaf 2023 ar sawl dewis ar gyfer ad-drefnu darpariaeth addysg yn ardal Saltney. Nododd canlyniad yr ymgynghoriad bod mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi cynnal yr ysgolion presennol, gyda buddsoddiad unigol i ailwampio a moderneiddio'r adeiladau.

n dilyn ystyriaeth o ymatebion yr ymgynghoriad anffurfiol, ac o ystyried niferoedd arfaethedig disgyblion, cyfyngiadau ariannol, a gofynion Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, daeth y Cyngor i'r casgliad na fyddai ailwampio'r ysgolion presennol, yn gytbwys, fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn perthynas â lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol yn yr hirdymor, a darpariaeth amgylchedd dysgu modern.

O ganlyniad, archwiliwyd dewisiadau eraill, gan gynnwys y posibilrwydd o sefydlu un ysgol gynradd gymunedol newydd. Gweler crynodeb o'r dewisiadau hyn yn ddiweddarach yn y ddogfen, ac maent yn ffurfio rhan o'r sail ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.

Er mwyn cael mynediad i gyllid Llywodraeth Cymru, lleihau lleoedd gwag, a sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau'r Cyngor, byddai angen cynnig arall. Datblygodd y Cyngor gynnig i sefydlu un ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â lle i 315 o ddisgyblion ar safle presennol Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Mae'r safle hwn yn cynrychioli'r unig dir sydd ar gael ac yn perthyn i'r Cyngor o fewn yr ardal, ac sy'n cael ei hystyried yn addas ar gyfer sefydlu ysgol o'r maint hwn mewn ffordd ddanfodwy a fforddiadwy. Mae gwerthusiad o'r dewisiadau, gan gynnwys ystyriaeth o ddulliau eraill, wedi'i gynnwys yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad statudol ar ad-drefnu arfaethedig Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ym mis Mehefin-Gorffennaf, a chyhoeddodd hysbysiad statudol ym mis Tachwedd 2025. Daeth y broses gwneud penderfyniad i ben o ganlyniad, yn dilyn her gyfreithiol hwyr yn ymwneud â chynnig sefydliad ysgol ar wahân yn cael ei ystyried ar yr un pryd.

Ceisiodd y Cyngor gyngor cyfreithiol ar y materion a godwyd. Gan fod gan y materion a nodwyd yn berthnasol o bosib i'r ddau gynnig, ystyriwyd ei fod yn briodol dod â'r broses o wneud penderfyniadau'r ddau gynllun i ben. Roedd yr amser oedd ei angen i ystyried y cyngor hwnnw yn golygu nad oedd posib bodloni'r amserlen statudol a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae angen ymgynghoriad statudol newydd felly, dan God Trefniadaeth Ysgolion (2026).

### B4. Y Sefyllfa Bresennol

#### Ysgol Gynradd Saltney Ferry

<b>Lleoliad yr Ysgol</b>	Saltney Ferry Road, Saltney Ferry, Caer, CH4 0BN	
<b>Ystod Oedran</b>	3-11	
<b>Categori Ysgol</b>	Ysgol gymunedol	
<b>Categori Iaith</b>	Cyfrwng Saesneg	
	Derbyn – Blwyddyn 6	Meithrin
<b>Nifer y dysgwyr ar y gofrestr ym mis Medi 2025</b>	116	16

<b>Nifer y dysgwyr ar gofrestr yr ysgol</b>	<b>Medi 2024</b>	116	18
	<b>Medi 2023</b>	117	19
	<b>Medi 2022</b>	117	19
	<b>Medi 2021</b>	118	10
<b>Lleoedd ar gael</b>		236	33
<b>Lleoedd Gwag</b>		-120	
<b>Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion</b>	<b>Medi 2026</b>	116	16
	<b>Medi 2027</b>	114	16
	<b>Medi 2028</b>	112	16
	<b>Medi 2029</b>	116	16
	<b>Medi 2030</b>	112	16
<b>Categori Cyflwr yr Adeilad</b>	Gradd Cyflwr B – Boddhaol Perfformio fel y bwriedir ond yn dangos ychydig o ddirywiad.		
<b>Addasrwydd yr Adeilad</b>	Gradd B - Boddhaol Perfformio fel y bwriedir ond nid yw'n cefnogi'r cwricwlwm mewn rhai meysydd. Mae'r ffaith bod yr ysgol wedi'i lleoli mewn ardal breswyl yn golygu bod adegau danfon a chasglu plant yn heriol, gan nad oes digon o leoedd i rieni/gofalwyr barcio a throï eu cerbydau.		
<b>Cost i Ddatrys Problemau Cyflwr</b>	£227,498.07		
<b>Cyllid</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dyraniad cyllid 26/27 = £715,571.</li> <li>• Cyllideb Staffio (addysgu, cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth, gweinyddu ac ADY) - £566,181</li> <li>• Cyllideb Costau'r Ysgol Fesul Disgybl 26/27 = £5,771</li> <li>• Y gyfran gyfartalog o'r gyllideb fesul disgybl cynradd yn Sir y Fflint (26/27) yw £5,360.</li> </ul>		

## Effaith Carbon

Mae Tystysgrif Ynni Ysgol Gynradd Saltney Ferry'n rhoi sgôr C ar gyfer perfformiad ynni gweithredol. Mae'r ysgol yn defnyddio system wresogi nwy naturiol. Yn 2024-25, defnyddiodd yr ysgol 33,303 o gilowat-orïau o drydan a 124,570 o gilowat-orïau o nwy. Roedd hyn yn gyfystyr â chyfanswm o 35,580.5kgCO<sub>2</sub>e. Byddai adeilad newydd sy'n cyflawni'r safon Gweithredu'n Ddi-garbon Net yn dileu'r allyriadau hynny o ôl troed carbon y Cyngor drwy ddefnyddio systemau ynni adnewyddadwy a dulliau naturiol o awyru a chysgodi.

Prin fyddai'r effaith ar allyriadau teithio gan fod yr ysgolion mor agos at ei gilydd.

## Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood

<b>Lleoliad yr Ysgol</b>		Boundary Lane, Saltney, CH4 8LN	
<b>Ystod Oedran</b>		3-11	
<b>Categori Ysgol</b>		Ysgol gymunedol	
<b>Categori Iaith</b>		Cyfrwng Saesneg	
		Derbyn – Blwyddyn	Meithrin
		6	
<b>Nifer y dysgwyr ar y gofrestr ym mis Medi 2025</b>		147	16
<b>Nifer y dysgwyr ar gofrestr yr ysgol</b>	<b>Medi 2024</b>	152	19
	<b>Medi 2023</b>	142	15
	<b>Medi 2022</b>	150	18
	<b>Medi 2021</b>	147	18
<b>Lleoedd ar gael</b>		216	30
<b>Lleoedd Gwag</b>		-69	
<b>Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion</b>	<b>Medi 2026</b>	149	21
	<b>Medi 2027</b>	145	21
	<b>Medi 2028</b>	146	20
	<b>Medi 2029</b>	146	21
	<b>Medi 2030</b>	146	21
<b>Categori Cyflwr yr Adeilad</b>	Gradd Cyflwr B – Boddhaol Perfformio fel y bwriedir ond yn dangos ychydig o ddirywiad.		
<b>Addasrwydd yr Adeilad</b>	Addasrwydd Gradd C – Gwael Cyfyngu ar ddulliau addysgu / effaith andwyol ar drefniadaeth yr ysgol. Mae'r ffaith bod yr ysgol wedi'i lleoli mewn ardal breswyl adeiledig yn golygu bod adegau danfon a chasglu plant yn heriol, gan nad oes digon o leoedd i rieni/gofalwyr barcio a throï eu cerbydau.		
<b>Cost i Ddatrys Problemau Cyflwr</b>	£97,618		
<b>Cyllid</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dyraniad cyllid 26/27 = £843,087.</li> <li>Cyllideb Staffio (addysgu, cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth, gweinyddu ac ADY) - £683,430</li> </ul>		

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyllideb Costau'r Ysgol Fesul Disgybl 26/27 = £5,439</li> <li>• Y gyfran gyfartalog o'r gyllideb fesul disgybl cynradd yn Sir y Fflint (26/27) yw £5,360.</li> </ul>
--	---

## Effaith Carbon

Mae Tystysgrif Ynni Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn rhoi sgôr E ar gyfer perfformiad ynni gweithredol. Mae'r ysgol yn defnyddio system wresogi nwy naturiol. Yn 2024-25, defnyddiodd yr ysgol 42,396 o gilowat-oriau o drydan a 70,652 o gilowat-oriau o nwy. Roedd hyn yn gyfystyr â chyfanswm o 25,556.7kgCO<sub>2</sub>e. Byddai adeilad newydd sy'n cyflawni'r safon Gweithredu'n Ddi-garbon Net yn dileu'r allyriadau hynny o ôl troed carbon y Cyngor drwy ddefnyddio systemau ynni adnewyddadwy a dulliau naturiol o awyru a chysgodi.

Prin fyddai'r effaith ar allyriadau teithio gan fod yr ysgolion mor agos at ei gilydd.

## Materion o ran Cyflwr


Mae'r costau sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â materion o ran cyflwr yn y ddwy ysgol, Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood wedi'u nodi yn y tablau isod. Mae'r ffigurau yn adlewyrchu costau gwaith cynnal a chadw brys a hanfodol, ac nid yn cynnwys y costau ailwampio llwyr sy'n ofynnol i wella addasrwydd y safle a diwallu anghenion dysgwyr.

Mae crynodeb o'r costau hyn i'w weld isod, er mwyn cefnogi cymhariaeth rhwng y ddwy ysgol.

Ysgol	Costau Cyflwr (£)	Graddfa ar gyfer Addasrwydd
Ysgol Gynradd Saltney Ferry	£227,498	Graddfa B
Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood	£97,618	Graddfa C
<b>Cyfanswm</b>	<b>£325,116</b>	

\* Y ffigurau, ystadegau a deunydd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yw'r rhai mwyaf cywir sydd ar gael adeg paratoi a chyhoeddi.

**B5. Map o Leoliad Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood**




Mae Saltney yn dref ac yn ward etholiadol yn Sir y Fflint i'r dwyrain o bentref Brychdyn ac ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr nid nepell o ddinas Caer. Yng Nghyfrifiad 2021, cofnodwyd fod yno 5,140 o bobl yn preswyllo yn Saltney. Mae nifer o ysgolion yn yr ardal ar hy o bryd, gan gynnwys Ysgol gynradd Saltney Ferry, Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac Ysgol Gynradd Gatholig Sant Anthony, sy'n destun adolygiad ar wahân o'i darpariaeth yn y dyfodol.

## B6. Gwybodaeth Ddemograffig

### Ysgol Gynradd Saltney Ferry

Mae dadansoddiad demograffig (Medi 2025) yn dangos bod Ysgol Gynradd Saltney Ferry'n gwasanaethu ardal Saltney yn gyffredinol a bod tua 64.17% o ddisgyblion yn dewis eu hysgol gymunedol leol agosaf.


### Map o Leoliadau Disgyblion sy'n Mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry



## Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood

Mae dadansoddiad demograffig (Medi 2025) yn dangos bod Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn gwasanaethu ardal Saltney yn bennaf a bod tua 78.81% o ddisgyblion yn dewis eu hysgol gymunedol leol agosaf.

## Map o Leoliadau Disgyblion sy'n Mynychu Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood



## Gwerthusiad o'r Ardal

Mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir y Fflint yn 2023 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2015 a 2030. Mae'r Cynllun yn pennu'r modd y bydd trefi a phentrefi Sir y Fflint yn tyfu ac yn newid, gan gynnwys nodi ble ddylai datblygiadau ddigwydd neu beidio.

Gall y CDLI gael effaith ar niferoedd disgyblion a dylanwadu ar ddyletswydd y Cyngor i ddarparu'r nifer priodol o lefydd ysgol yn y lleoliadau cywir, gan leihau costau cynnal a sicrhau cynaliadwyedd.

Mae pedair ysgol yn ward Saltney Ferry:

- Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Ferry.
- Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyr Sant Anthony.
- Ysgol Uwchradd Dewi Sant.

Yr ysgolion cynradd agosaf y tu hwnt i ardal Saltney yw:

- Ysgol Gynradd Brychdyn (3.1 milltir ar droed o Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood a 2.1 milltir ar droed o Ysgol Gynradd Saltney Ferry)

- Ysgol Gynradd Gymunedol Lache, Caer, Lloegr (0.9 milltir ar droed o Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood a 2 milltir ar droed o Ysgol Gynradd Saltney Ferry).

Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yw'r ddwy ysgol gymunedol ar gyfer ardal Saltney.

Nid oes unrhyw safleoedd datblygu a nodwyd yn ardal Saltney yn y CDLI presennol. Yn sgil absenoldeb twf poblogaeth sylweddol, neu ddatblygiad tai ychwanegol, mae'r lefelau uchel o leoedd gwag yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry (120 o leoedd / 50.85%) ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood (69 o leoedd / 31.94%) yn nodi nad oes galw digonol i gynnar dwy ysgol gynradd ar wahân.

Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol i sicrhau darpariaeth briodol o leoedd ysgolion mewn lleoliadau addas, gan geisio lleihau lleoedd gwag, rheoli adnoddau'n effeithiol, a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor darpariaeth addysgol.


Mae'r lefel o leoedd gwag yn y ddwy ysgol yn awgrymu bod y ddarpariaeth bresennol yn fwy na'r galw yn lleol. Byddai sefydlu ysgol gynradd gyfunol newydd yn Saltney yn lleihau lleoedd gwag, gan ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithlon, a chynnig amgylchedd dysgu gwell i ddisgyblion.

Mae'r niferoedd presennol a nifer arfaethedig disgyblion ar gyfer y ddwy ysgol wedi'u nodi yn y tabl isod.

## B7. Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion

### Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood

Year Group	ACTUAL					LATEST DATA	FORECAST					5 Year Trend	
	Sep-20	Sep-21	Sep-22	Sep-23	Sep-24		Sep-25	Sep-26	Sep-27	Sep-28	Sep-29		Sep-30
Nursery	14	18	18	15	19	16	21	21	20	21	21	5	
Reception	23	26	22	22	24	25	16	21	21	20	21	-4	
Year 1	14	25	26	22	21	22	25	16	21	21	20	-2	
Year 2	21	15	25	24	21	21	22	25	16	21	21	0	
Year 3	20	21	16	25	23	20	21	22	25	16	21	1	
Year 4	26	15	23	14	26	20	20	21	22	25	16	-4	
Year 5	20	25	14	22	14	25	20	20	21	22	25	0	
Year 6	18	20	24	13	23	14	25	20	20	21	22	8	
<b>Total</b>	<b>142</b>	<b>147</b>	<b>150</b>	<b>142</b>	<b>152</b>	<b>147</b>	<b>149</b>	<b>145</b>	<b>146</b>	<b>146</b>	<b>146</b>	<b>-1</b>	
Capacity	216	216	216	216	216	216	216	216	216	216	216	0	
Surplus Places	74	69	66	74	64	69	67	71	70	70	70	1	
Surplus Places	34.26%	31.94%	30.56%	34.26%	29.63%	31.94%	31.02%	32.87%	32.41%	32.41%	32.41%	0.46%	
Admission	30	30	30	30	30	30	30	30	30	30	30	0	
	Reception transfers in to the school from a nearby school forecasted to exceed their admission number												0
	Reception transfers out of the school to a nearby school as admission number forecasted to be exceeded												0




## Medi 2026

Mae tîm Derbyniadau Ysgol Cyngor Sir y Fflint wedi cadarnhau, o ddyddiad y cyhoeddiad, bod 22 o leoedd wedi cael eu cynnig ar gyfer mis Medi 2026 yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, gan fynd tu hwnt i'r ffigur disgwyliedig o 16. Ar y llaw arall, neilltuwyd 10 o leoedd yn y dosbarth meithrin, sy'n llai na'r nifer o 21 a ragwelwyd.

Gyda'i gilydd, mae'r ffigurau hyn yn nodi amrywiadau ar yr amcanestyniadau, ond yn gyffredinol, mae lleoedd o hyd yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

## Ysgol Gynradd Saltney Ferry

Year Group	ACTUAL					LATEST DATA	FORECAST					5 Year Trend	
	Sep-20	Sep-21	Sep-22	Sep-23	Sep-24	Sep-25	Sep-26	Sep-27	Sep-28	Sep-29	Sep-30		
Nursery	26	10	19	19	18	16	16	16	16	16	16	0	
Reception	14	25	12	12	19	15	16	16	16	16	16	1	
Year 1	14	16	23	23	19	17	15	16	16	16	16	-1	
Year 2	16	14	18	18	10	20	17	15	16	16	16	-4	
Year 3	17	16	14	14	19	12	20	17	15	16	16	4	
Year 4	19	15	16	16	20	18	12	20	17	15	16	-2	
Year 5	11	20	15	15	15	18	18	12	20	17	15	-3	
Year 6	10	12	19	19	14	16	18	18	12	20	17	1	
<b>Total</b>	<b>101</b>	<b>118</b>	<b>117</b>	<b>117</b>	<b>116</b>	<b>116</b>	<b>116</b>	<b>114</b>	<b>112</b>	<b>116</b>	<b>112</b>	<b>-4</b>	
Capacity	236	236	236	236	236	236	236	236	236	236	236	0	
Surplus Places	135	118	119	119	120	120	120	122	124	120	124	4	
Surplus Places	57.20%	50.00%	50.42%	50.42%	50.85%	50.85%	50.85%	51.69%	52.54%	50.85%	52.54%	1.63%	
Admission	33	33	33	33	33	33	33	33	33	33	33	0	
	Reception transfers in to the school from a nearby school forecasted to exceed their admission number												0
	Reception transfers out of the school to a nearby school as admission number forecasted to be exceeded												0



## Medi 2026


Mae tîm Derbyniadau Ysgol Cyngor Sir y Fflint wedi cadarnhau, o ddyddiad y cyhoeddiad, bod 11 o leodd wedi cael eu cynnig ar gyfer mis Medi 2026 yn Ysgol Gynradd Saltney, sy'n is na'r ffigur disgwyliedig o 16. Ar y llaw arall, neilltuwyd 20 o leodd yn y dosbarth meithrin, sy'n fwy na'r nifer o 16 a ragwelwyd.

Gyda'i gilydd, mae'r ffigurau hyn yn nodi amrywiadau ar yr amcanestyniadau, er bod lleoedd o hyd yn Ysgol Gynradd Saltney.

## Ysgol Newydd Saltney

Yn seiliedig ar y niferoedd disgyblion sydd ar y gofrestr gyfredol, a'r amcanestyniadau pum mlynedd ar gyfer Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, byddai disgwyl i'r safle ar gyfer ysgol gyfunol newydd fel a ganlyn:

Year Group	ACTUAL					LATEST DATA	FORECAST					5 Year Trend
	Sep-20	Sep-21	Sep-22	Sep-23	Sep-24	Sep-25	Sep-26	Sep-27	Sep-28	Sep-29	Sep-30	
Nursery	40	28	37	34	37	32	37	37	36	37	37	5
Reception	37	51	34	34	43	40	32	37	37	36	37	-3
Year 1	28	41	49	45	40	39	40	32	37	37	36	-3
Year 2	37	29	43	42	31	41	39	40	32	37	37	-4
Year 3	37	37	30	39	42	42	41	40	40	32	37	-5
Year 4	45	30	39	30	46	38	42	41	39	40	32	-6
Year 5	31	45	29	37	29	43	38	32	41	39	40	-3
Year 6	28	32	43	32	37	30	43	38	32	41	39	9
<b>Total</b>	<b>243</b>	<b>265</b>	<b>267</b>	<b>259</b>	<b>268</b>	<b>273</b>	<b>275</b>	<b>260</b>	<b>258</b>	<b>262</b>	<b>258</b>	<b>-15</b>
<b>Capacity</b>	315	315	315	315	315	315	315	315	315	315	315	0
<b>Surplus Places</b>	72	50	48	56	47	42	40	55	57	53	57	15
<b>Surplus Places</b>	22.86%	15.87%	15.24%	17.78%	14.92%	13.33%	12.70%	17.46%	18.10%	16.83%	18.10%	4.76%
<b>Admission</b>	45	45	45	45	45	45	45	45	45	45	45	0
	Reception transfers in to the school from a nearby school forecasted to exceed their admission number											0
	Reception transfers out of the school to a nearby school as admission number forecasted to be exceeded											0



### Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae gofyn i bob ysgol gydymffurfio â'r dyletswyddau statudol a roddir arnynt gan ALNET fel y byddai plant a phobl ifanc y nodir bod ganddynt ADY yn cael eu hamddiffyn yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mae ffigurau presennol o gyfrifiad CYBLD 2025 yn dangos y nifer ganlynol o CDU:

Ysgol	Math o CDU	Nifer	Nifer ar y gofrestr	% gyda CDU
Ysgol Gynradd Saltney Ferry	ALI	3		
	Ysgol	29		
	<b>Cyfanswm</b>	<b>32</b>	<b>132</b>	<b>24.24%</b>
Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood	ALI	2		
	Ysgol	19		
	<b>Cyfanswm</b>	<b>21</b>	<b>163</b>	<b>12.88%</b>

Nid oes gan y Cyngor leoliadau ag adnoddau arbenigol yn un o'r ddwy ysgol. Mae gan y Cyngor brofiad o gefnogi dysgwyr gyda ADY drwy gyfnodau pontio, fel rhan o raglenni ad-drefnu ysgolion blaenorol, a byddant yn gweithio ar y cyd gydag ysgolion, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddeall a chefnogi anghenion unigol dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig.

Mae goblygiadau manwl o'r cynnig ar gyfer dysgwyr ag ADY wedi cael eu hasesu drwy Ddatganiad Effaith ADY, sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad, ac a ddylid ei ddarllen ar y cyd â'r ddogfen hon.

### B8. Ansawdd y Ddarpariaeth Addysg

Mae Estyn a'r Cyngor yn monitro safonau ac ansawdd yr addysg yn ysgolion Sir y Fflint. Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, sy'n gyfrifol am arolygu ansawdd a safon addysg a darparwyr hyfforddiant ledled Cymru.

Mae'r wybodaeth o'r adroddiadau arolwg diweddaraf a gyhoeddwyd gan Estyn ar gyfer yr ysgolion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig hwn wedi'i hystyried fel rhan o'r broses adolygu. Mae Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn cael eu nodi fel ysgolion da gan Estyn ar hyn o bryd, sy'n darparu sylfaen gadarn o ran dysgu, addysgu a chefnogaeth i ddisgyblion. Nod y cynigion yw adeiladu ar

y cryfderau hynny, mynd i'r afael â meysydd i'w gwella a nodwyd mewn arolygiadau diweddar, a darparu amgylchedd dysgu mwy cyson, ag adnoddau da i bob disgybl.

Mae argymhellion o arolygiad craidd mwyaf diweddar Estyn yn cynnwys:

### **Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood - Mawrth 2020**

- Codi safonau Cymraeg gydol yr ysgol
- Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion arfer eu sgiliau rhifedd ac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm

### **Ysgol Gynradd Saltney Ferry - Medi 2022**

- Gwella sgiliau darllen ac ysgrifennu'r disgyblion
- Gwella Cymraeg y disgyblion a'u sgiliau digidol
- Sicrhau bod athrawon yn cynnal disgwyliadau uchel ac yn herio'r holl ddisgyblion yn gyson
- Gweithredu gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu a gwella
- Sicrhau bod profiadau dysgu yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth flaenorol dysgwyr

Mae Fframwaith Arolygu Estyn yn gwerthuso perfformiad yr ysgol ar draws tri maes arolygu:

- IA1 - Addysgu a Dysgu
- IA2 - Lles, Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad
- IA3 - Arwain a Gwella

Er ei fod wedi'i strwythuro fel hyn, mae'r meysydd yn adlewyrchu ystod o ffactorau sy'n cyfrannu at safonau addysgol, cynnydd dysgwyr a chanlyniadau, fel sy'n ofynnol gan God Trefniadaeth Ysgolion Cymru.

Adlewyrchir y safonau drwy safon y dysgu, asesiad ac olrhain cynnydd, ac effeithiolrwydd trefniadau lles, cefnogi ac arweinyddiaeth.

Mae'r adran ganlynol yn ystyried effaith debygol y cynigion ar safonau addysgol, gan gyfeirio at feysydd arolygu perthnasol.

### **Addysgu a Dysgu**

Mae disgwyl i'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu gan fynd i'r afael â meysydd allweddol ar gyfer datblygu fel y nodwyd yn yr ysgolion presennol. Disgwylir iddo gefnogi gwelliannau o ran safonau addysgol, gan eu cynnal ar y lefelau presennol o leiaf, drwy sefydlu dull cydlynol a chyson, ysgol gyfan o ran dylunio'r cwricwlwm, addysgu ac asesiad.

Byddai'r trefniadau arfaethedig yn galluogi darpariaeth cwricwlwm eang, cytbwys a blaengar sy'n cefnogi disgyblion i ddatblygu a chymhwyso llythrennedd, rhifedd, y Gymraeg, a sgiliau digidol yn fwy effeithiol. Byddai'r broses o gynllunio'r cwricwlwm yn cael ei gryfhau er mwyn sicrhau cynnydd, cydlynad, a chyfleoedd dysgu trawsgwricwlaidd ystyrlon.

Byddai mwy o gysondeb o ran ymarfer dysgu a disgwyliadau yn cael ei gyflawni drwy fwy o gydweithio rhwng staff, rhannu dulliau addysgeg a strategaethau gwahaniaethu wedi'u halinio. Byddai addysg broffesiynol yn cefnogi rhannu arbenigedd a chynnal safonau dysgu uchel ar draws yr ysgol.

Byddai systemau olrhain a monitro gwell yn galluogi adnabod tangyflawni yn gynt, yn darparu sail dystiolaeth gryfach ar gyfer ymyrryd a sicrhau bod her briodol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog.

### **Effaith ar Grwpiau Dysgwyr, gan gynnwys Disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Disgwylir i'r cynnig gefnogi dull cydlynol a chyson o ddarparu ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan gynnwys y lefelau presennol o gefnogaeth. Byddai gwell prosesau adnabod ac olrhain yn cefnogi ymyrraeth amserol, a dargedwyd i helpu i dynnu rhwystrau i addysg.

Byddai adeilad ysgol newydd yn darparu safle a ddyluniwyd yn bwrpasol i ddiwallu ystod o anghenion dysgu ychwanegol. Byddai'n cynnwys gofod a ddyluniwyd yn briodol i gefnogi grwpiau gwaith bach, ymyrraethau a dargedwyd a chefnogaeth fugeiliol, yn ogystal â hygyrchedd gwell yn yr adeilad. Byddai amgylchedd dysgu gwell yn cefnogi ysgol o ddulliau dysgu gwahanol, ac yn galluogi darpariaeth fwy hyblyg a chynhwysol ar gyfer disgyblion gydag anghenion gwahanol.

Byddai trefniadau yn parhau i gael eu darparu yn unol â dyletswyddau statudol dan God ADY Cymru, gan sicrhau parhad cefnogaeth, a chynnal Cynlluniau Datblygu Unigol drwy gyfnod pontio.

Byddai disgwyl i ddarpariaeth disgyblion sy'n gymwys ar gyfer pryddau ysgol am ddim gael ei chynnal, a lle bo'n bosibl, ei chryfhau drwy ddulliau dysgu cyson, ymyrraeth a dargedwyd a chefnogaeth fugeiliol. Byddai cyfleusterau a chyfleoedd gwell ar gyfer darpariaeth grwpiau bach yn cefnogi addysg fwy personol ac yn helpu i wella ymgysylltiad.

### **Lles, Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad**

Mae disgwyl i'r cynnig gryfhau lles, gofal, cefnogaeth a chanllawiau, gan gynnwys datblygiad personol a diogelu. Byddai prosesau olrhain lles, ymgysylltiad a phresenoldeb gwell yn galluogi trefniadau adnabod cynnar ar gyfer disgyblion sydd angen cefnogaeth.

Byddai trefniadau cefnogi addysg gydlynol, gan gynnwys ymyrraethau ADY a dargedwyd, yn cryfhau cysondeb darpariaeth. Byddai systemau bugeiliol yn hyrwyddo lles emosiynol, gwytnwch a pherthnasau cadarnhaol, gan gefnogi ymgysylltiad, presenoldeb ac ymddygiad.

### **Arwain a Gwella**

Disgwylir i'r cynnig gryfhau arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu, gan gynyddu lle ar gyfer gwelliant cynaliadwy, gan gynnwys cryfderau presennol. Byddai cyfeiriad strategol cliriach, trefniadau hunanarfarnu cadarn, a chynllunio gwelliant yn cefnogi ffocws parhaus ar godi safonau a gwella safonau dysgu.

Mae'r Cyngor yn nodi bod trefniadau arwain gwahanol ar draws y ddwy ysgol, gan gynnwys arweinyddiaeth dros dro yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry. Byddai sefydlu un corff llywodraethu, a phenodi pennaeth annibynnol ar gyfer ysgol gyfunol yn darparu mwy o sefydlogrwydd ac arweinyddiaeth barhaus, gan gefnogi dull mwy cyson o weithio ar draws yr ysgol.

Byddai addysg broffesiynol a dargedwyd yn cefnogi datblygiad staff, gyda dyraniad strategol adnoddau yn helpu i ddangos yr effaith fwyaf ar ddysgu, addysgu a lles. Mae disgwyl i drefniadau llywodraethu gryfhau trefniadau craffu ac atebolrwydd.

Byddai arweinyddiaeth darpariaeth ADY yn cael ei gwella, gan gefnogi dull mwy cydlynol o weithio, ynghyd â defnydd effeithiol o grantiau, Grant Datblygu Disgyblion, er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb, ymgysylltiad, a chanlyniadau gwell.

## **Cyflawni'r Cwricwlwm**

Disgwylir i'r cynigion wella gallu'r ysgol i ddarparu'r cwricwlwm llawn yn y Cyfnod Sylfaen ac ar draws yr holl gyfnodau. Byddai cydgrynhoi adnoddau, arbenigedd a chyfleusterau yn cryfhau'r trefniadau cynllunio a chynnydd y cwricwlwm.

Byddai gofodau dysgu arbenigol, amgylchedd dysgu gwell a mwy o gydweithio yn cefnogi dulliau dysgu gwahanol, addysg a dargedwyd a chynnal cynnydd disgyblion. Yn gyffredinol, disgwylir i'r cynigion gryfhau safonau addysgol, a darparu profiad dysgu o safon uchel i bob disgybl.

## **RHAN C – Y CYNNIG**

---

### **C1: Beth sy'n cael ei gynnig?**

Mae'r Cyngor yn cynnig adeiladu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg newydd yn Saltney. Byddai'r prosiect yn cael ei gyflawni drwy Raglen Ddatblygu Gyfalaf, a'i gefnogi gan gyllid Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, gan ddarparu un ysgol gynradd gyda 315 o leoedd ysgol statudol, ynghyd â 30 o leoedd meithrin cyfwerth â llawn amser.

Byddai'r ysgol arfaethedig yn gweithredu gyda Nifer Derbyniadau a Gyhoeddir o 45 disgybl fesul grŵp blwyddyn, gan wneud lle ar gyfer saith grŵp blwyddyn statudol, sy'n cefnogi capasiti cyffredinol o 315 o leoedd.

---

### **C2: Beth fydd y cynnig yn ei ddarparu?**

Bydd rhaglen o waith adeiladu cyfalaf yn hwyluso'r cynnig, wedi'i hariannu drwy Raglen Ddatblygu Gyfalaf y Cyngor. Bydd y prosiect yn adeiladu ysgol gynradd gymunedol newydd yn Saltney â lle i 315 o ddisgyblion yn ogystal â meithrinfa â lle i 30 o blant. Adeiladir yr ysgol newydd ar dir Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

Byddai'r ysgol newydd arfaethedig yn darparu cyfleusterau modern a adeiladwyd yn bwrpasol i gefnogi darpariaeth Cwricwlwm i Gymru, ac i ddiwallu anghenion dysgwyr.

Disgwylir i'r ysgol newydd gynnwys ystod o ystafelloedd dosbarth cyffredinol a ddyluniwyd i gefnogi addysg hyblyg a chydweithredol, ynghyd â darpariaeth bwrpasol ar gyfer plant o oedran meithrin a dysgwyr Cyfnod Sylfaen, a mynediad i ardaloedd dysgu awyr agored priodol. Rhoddir ystyriaeth i gynnwys darpariaeth cyn ysgol, er mwyn cefnogi datblygiad y blynyddoedd cynnar a pharhad addysg o fewn yr ardal leol. Bydd ystod o ofodau arbenigol a chefnogi yn cael eu hymgorffori i alluogi darpariaeth effeithiol y cwricwlwm, ac i gefnogi ystod o ddulliau dysgu.

Byddai darpariaeth i ddisgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol drwy ofodau a ddyluniwyd yn bwrpasol, er mwyn cefnogi gwaith grŵp bach, ymyrraeth a dargedwyd a chefnogaeth fugeiliol. Byddai'r adeilad yn cynnwys ardaloedd i gefnogi lles disgyblion, gan sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael i fodloni ystod o anghenion cymdeithasol, emosiynol a dysgu.

Disgwylir i'r safle arfaethedig gynnwys neuadd sy'n addas ar gyfer gwasanaethau, ymarfer corff a gweithgareddau ehangach o fewn yr ysgol, ynghyd â chyfleusterau cinio a choginio. Byddai'r ardaloedd awyr agored yn cael eu dylunio i ddarparu gofod chwarae a hamdden addas i ddisgyblion o wahanol oeddrannau, gan gefnogi dysgu ffurfiol ac anffurfiol.

Wrth ddatblygu'r cynnig, mae'r Cyngor wedi ystyried deddfwriaethau a chanllawiau perthnasol, yn cynnwys Rheoliadau Adeiladu, Safonau Gofodol Llywodraeth Cymru a gofynion mewn perthynas â chapasiti ysgol a darparu caeau chwarae. Byddai'r gwaith dylunio yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod yr holl safonau perthnasol yn cael eu cyrraedd, yn cynnwys darparu ardaloedd chwarae caled a meddal a darpariaeth chwaraeon awyr agored.

Yn ychwanegol at hynny, bydd y dyluniad yn cynnwys gofod cymunedol pwrpasol i gefnogi defnydd ehangach yr ysgol gan breswylwyr a grwpiau lleol, gan helpu i gryfhau cysylltiadau rhwng yr ysgol a'i chymuned. Byddai hyn yn amodol ar ddatblygiad dyluniad pellach ac asesiad o'r angen yn lleol.

Byddai ystafelloedd staff yn cynnwys gweithle addas, ystafelloedd cyfarfod, a chyfleusterau i gefnogi dysgu, cynllunio a chydweithio proffesiynol. Byddai dyluniad cyffredinol y safle yn blaenoriaethu diogelwch, hygyrchedd a diogelu, gan gynnwys trefniadau priodol ar gyfer danfon a chodi plant.

Byddai dyluniad yr ysgol newydd yn cael ei ddatblygu ymhellach drwy broses dylunio a chynllunio manwl, a byddai'n destun caniatâd cynllunio a chadarnhad o'r cyllid. Byddai'r adeilad yn cael ei ddylunio i fodloni safonau Gweithredu Carbon Sero Net, gan gefnogi amcanion cynaliadwyedd a datgarboneiddio ehangach y Cyngor.

---

### **C3: Pa bryd gaiff y cynnig ei roi ar waith?**

---

Yn dibynnu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad a chaniatâd statudol, byddai Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn cau ar 31 Awst, 2027. Byddai ysgol gynradd gymunedol gyfunol yn agor ar 1 Medi, 2027 dan un strwythur arweinyddiaeth a llywodraethu.

I gychwyn, bydd yr ysgol gyfunol yn defnyddio'r ddau safle presennol. Bydd manylion y trefniadau gweithredol, yn cynnwys pa grwpiau blwyddyn fydd ymhob safle, lleoliad staff a threfniadau dyddiol, yn cael eu datblygu gan y corff llywodraethu dros dro a'r pennaeth. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu cynllunio i beidio ag amharu'n ormodol ar y plant a, ble bo'n ymarferol, i sicrhau nad yw brodyr a chwiorydd yn cael eu gwahanu.

Bydd gwaith adeiladu'r ysgol newydd yn dechrau yn amodol ar y prosesau cymeradwyo gofynnol, ond rhagwelir y bydd yn agor ar 1 Medi 2030.

---

### **C4: Cost y Cynnig**

---

Byddai'r cynnig angen buddsoddiad cyfalaf o £12.5 miliwn er mwyn cefnogi ad-drefnu a darpariaeth ysgol gynradd newydd yn ardal Saltney.

Rhagwelir y bydd y cynllun yn cael ei ariannu drwy gyfunoliad o gyllid Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a chyllid cyfalaf Cyngor Sir y Fflint, a rhywfaint o fenthyca darbodus. Yn seiliedig ar yr amcangyfrifon presennol, disgwylir i'r cyllid gan Lywodraeth Cymru fod yn oddeutu £8.125 miliwn (65%), gyda'r £4.375 miliwn sy'n weddill (35%) yn cael ei ariannu gan y Cyngor. Bydd y trefniadau cyllido terfynol yn cael eu cadarnhau drwy broses gymeradwyo Llywodraeth Cymru a gweithdrefnau llywodraethu cyfalaf y Cyngor.

Mae amcangyfrif o'r gost gyfalaf yn seiliedig ar yr astudiaeth ddichonolrwydd sydd ar gael ar y cam hwn o'r prosiect, ond bydd yn newid wrth i'r cynllun symud i'r cam datblygu manwl. Bydd lwfansau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer chwyddiant ac amodau'r farchnad yn unol â chynllunio cyfalaf a phrosesau caffael y Cyngor.

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cefnogi prosiectau cyfalaf sy'n gwella ansawdd a chyflwr adeiladau ysgol; mynd i'r afael â lleoedd gwag; sicrhau lleoedd digonol i gwrdd â'r galw; hyrwyddo cynaliadwyedd, ac sy'n darparu gwerth am arian yn yr hirdymor.

Byddai cyfraniad ariannol y Cyngor at y cynllun yn dod o fenthycyca darbodus yn unol â phwerau statudol y Cyngor a Chod Darbodus CIPFA.

Mae'r costau refeniw sy'n gysylltiedig â benthycyca ar gyfer y cynllun, gan gynnwys llog a darpariaeth isafswm refeniw, wedi cael eu modelu dros gyfnod o 50 mlynedd, ac wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, yn seiliedig ar y cyfraddau llog a ragwelwyd pan osodwyd y Rhaglen Gyfalaf fis Rhagfyr 2025.

Mae amcangyfrifon dangosol yn dangos:

- y byddai costau benthycyca blynyddol ym Mlwyddyn 1 tua £0.292 miliwn;
- y byddai costau benthycyca blynyddol ym Mlwyddyn 50 tua £0.377 miliwn; ac
- y byddai'r costau blynyddol ar gyfartaledd dros y cyfnod 50 mlynedd tua £0.328 miliwn.

Mae'r costau hyn wedi'u hasesu ochr yn ochr ag ymrwymadau cyfalaf ehangach y Cyngor ac fe'u hystyrir yn fforddiadwy o fewn fframwaith y CATC.

Dyrennir cyllid refeniw ysgolion drwy fformiwla ariannu ysgolion lleol y Cyngor, sy'n seiliedig yn bennaf ar nifer y disgyblion ac amrywiaeth o gostau gweithredol a chostau nad ydynt yn ymwneud ag addysgu . Felly mae cyllidebau ysgolion unigol yn amrywio yn dibynnu ar nifer y disgyblion ar y gofrestr a nodweddion yr ysgol.

Dyraniad cyllid presennol, yn seiliedig ar niferoedd disgyblion mis Medi 2025 a'r lefelau ariannu ar y pryd hwnnw:

Enw'r Ysgol	Dyraniad Refeniw 2026/2027	Cyllideb Staffio 2026/2027	Cyllideb Costau'r Ysgol Fesul Disgybl 26/27	Cyllideb Gyfartalog Costau'r Ysgol Fesul Disgybl 26/27
Ysgol Gynradd Saltney Ferry	£715,571	£566,181	£5,771	£5,360
Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood	£843,087	£683,430	£5,439	£5,360

Mae gweithredu dwy ysgol ar wahân gyda niferoedd disgyblion cymharol isel yn arwain at gostau fesul disgybl uwch, ac nid yw'n gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael.

Mae gwaith modelu refeniw dangosol wedi'i gwblhau yn seiliedig ar Fformiwla Cyllido Ysgolion 2026/27 i ddeall goblygiadau ariannol posibl un ysgol newydd. Mae'r modelu yma wedi'i ddarparu at ddibenion ymgynghori yn unig ac yn seiliedig ar nifer o dybiaethau, yn cynnwys na fydd yr arbedion a wneir drwy ad-drefnu yn cael eu tyngu o gyllideb ysgolion, ond yn hytrach byddai'n cael ail-fuddsoddi ar draws yr ysgolion eraill.

Yn seiliedig ar niferoedd disgyblion cyfun presennol Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood:

- byddai gan yr ysgol newydd arfaethedig oddeutu 279 o ddisgyblion cyfwerth â llawn amser;
- byddai cyfanswm dyraniad cyllid dangosol tua £1.42 miliwn; a
- byddai'r lefel ariannu fesul disgybl dangosol tua £5,101, o'i gymharu â chymharydd o £5,360.

Yn llawn:

- disgwylir i'r ysgol newydd weithredu gydag oddeutu 330 o ddisgyblion cyfwerth â llawn amser;
- byddai cyfanswm dyraniad cyllid dangosol tua £1.60 miliwn; a
- byddai'r lefel ariannu fesul disgybl dangosol tua £4,853, o'i gymharu â chymharydd o £5,360.

Mae'r gostyngiad fesul disgybl yn adlewyrchu'r cynnydd yn yr effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â chael un ysgol fawr a defnyddio'r fformiwla cyllido safonol yn hytrach nag ariannu dau sefydliad ar wahân.

Bydd gwir ffigwr y cyllidebau yn cael ei bennu'n flynyddol drwy broses pennu cyllideb y Cyngor a bydd yn dibynnu ar nifer y disgyblion, y fformiwla cyllido a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn berthnasol a thueddiadau demograffeg ehangach.

Disgwylir i'r cynnig gyflawni gwell gwerth am arian drwy ddefnydd mwy effeithlon o adnoddau cyhoeddus a rhesymoliad y ddarpariaeth yn ardal Saltney a rhwydwaith ysgolion ehangach Sir y Fflint. Mae gweithredu dwy ysgol ar wahân gyda niferoedd eithaf isel o ddisgyblion yn arwain at gostau fesul disgybl uwch, ac nid yw'n gwneud y defnydd gorau o staffio, lleoliad na chyllid refeniw. Byddai dod â'r ddarpariaeth at ei gilydd mewn un ysgol yn lleihau'r aneffeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â lleoedd gwag ac yn galluogi defnyddio adnoddau mewn ffordd fwy cynaliadwy a theg.

Byddai datblygu un adeiladu ysgol, modern, yn lleihau'r costau cynnal a chadw a gweithredol parhaus sy'n gysylltiedig â chynnal sawl safle hŷn, gyda pherfformiad ynni gwell a safonau dylunio yn helpu i gyfyngu pwysau costau yn y dyfodol. Byddai staffio a gwasanaethau cefnogi yn cael eu cynllunio i adlewyrchu niferoedd ac anghenion disgyblion, gan ganiatáu i'r ysgol weithredu'n unol â threfniadau ariannu safonol y Cyngor, a chefnogi cynaliadwyedd ariannol hirdymor o fewn y sector cynradd.

Yn unol â chynlluniau eraill a gyflenwir drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, gellir archwilio cyfleoedd am gyllid grant ychwanegol wrth i'r prosiect fynd rhagddo, a lle bo'n briodol. Byddai cyllid o'r fath yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cyflawni'r cynllun, a gwella gwerth am arian ymhellach, drwy ddarparu cyfleusterau cymunedol er enghraifft, pan mae hyn yn cael ei nodi fel blaenoriaeth.

## C5: Dewisiadau a Ystyriwyd

Mae'r dewisiadau isod wedi cael eu hasesu wrth ystyried safonau addysgol, cynaliadwyedd ariannol, cyflwr ac addasrwydd yr adeilad, hyfywedd hirdymor, a'r gallu i ddiwallu dyletswyddau statudol y Cyngor. Gan fod pob dewis yn cyflwyno manteision posib, mae'r Cyngor wedi ystyried y graddau y dylent fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn ffordd gynaliadwy a danfonadwy.

Er bod y Cyngor wedi nodi dewis a ffeirir ar y cam hwn, nid yw hyn yn rhagweld canlyniad yr ymgynghoriad neu brosesau gwneud penderfyniadau statudol dilynol. Bydd opsiynau yn dal yn cael eu hystyried yn dibynnu ar yr adborth a dderbynnir.

Dewis	Disgrifiad	Cryfderau	Gwendidau	Casgliad
Dewis 1	Peidio â newid dim - byddai strwythurau a ffurf yr ysgolion	- Byddai'r dewis hwn yn cadw trefniadau presennol y ddwy ysgol, gyda	- Byddai'r ddwy ysgol yn dal â nifer helaeth o leoedd gwag.	Drwy beidio â newid dim, byddai'r ddwy ysgol yn methu mynd i'r afael â materion o ormod o

	presennol yn aros yr un fath.	<p>strwythurau llywodraethu a threfniadol yn parhau heb newid.</p> <p>- Ni fyddai unrhyw gost ariannol ychwanegol i'r awdurdod lleol.</p>	<p>- Byddai'r costau parhaus sy'n gysylltiedig â gweithredu dwy ysgol gymunedol ar wahân yn parhau i fod yn anghynnaladwy yn ariannol.</p> <p>- Byddai cyfyngiadau presennol sy'n ymwneud â safleoedd yr ysgol ac amgylcheddau dysgu yn parhau i beidio cael eu hateb.</p> <p>- Ni fyddai cyfleoedd i fodloni targedau lleihau carbon yn cael eu gwireddu gyda'r dewis hwn.</p>	<p>leoedd gwag ac yn talu costau gweithredu anghynnaladwy oherwydd hynny. Yn ychwanegol, ni fyddai'r dewis hwn yn datrys pryderon sydd wedi cael eu nodi ynghylch addasrwydd y ddau safle, a'u hamgylcheddau dysgu.</p>
<b>Dewis 2</b>	<p>Newid cyn lleied â phosib – adnewyddu'r ddwy ysgol yn unol ag argymhellion yr asesiadau diweddaraf o'u cyflwr a'u haddasrwydd, heb newid y strwythurau presennol.</p>	<p>- Byddai'r dewis hwn yn cynnwys lefel is o fuddsoddiad cyfalaf.</p> <p>- Byddai problemau â chyflwr ac addasrwydd yr adeilad yn cael eu datrys.</p> <p>- Byddai'r ddwy ysgol yn aros ar y safleoedd presennol ac yn parhau i weithredu dan drefniadau staffio presennol.</p>	<p>- Byddai'r ddwy ysgol yn dal â nifer helaeth o leoedd gwag.</p> <p>- Byddai'r gwaith arfaethedig wedi'i gyfyngu i fynd i'r afael â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw hanfodol, ac ni fyddai'n datrys materion ehangach yn ymwneud ag amgylchedd dysgu modern yn llawn.</p> <p>- Byddai'r costau parhaus o weithredu dwy ysgol gymunedol ar wahân yn parhau i fod yn anghynnaladwy yn ariannol.</p>	<p>Byddai'r dewis hwn yn mynd i'r afael â gwaith atgyweirio bryd a nodwyd ym mhob ysgol, gan alluogi i'r ddwy ysgol gynnal eu hunaniaeth eu hunain. Ni fyddai, fodd bynnag, yn lleihau'r nifer helaeth o leoedd gwag na'r costau anghynnaladwy parhaus o gynnal dwy ysgol gymunedol ar wahân yn yr un ardal. Yn ychwanegol at hynny, ni fyddai'r dewis hwn yn darparu amgylchedd dysgu i gefnogi dysgu ac addysgu o safon uchel yn llwyr.</p>

			- Ni fyddai'r dewis hwn yn cefnogi cyflawni targedau gostwng carbon.	
<b>Dewis 3</b>	Uno'r Ddwy Ysgol ar eu Safleoedd Presennol a Buddsoddi yn y Cyfleusterau sydd yno Eisoes.	<p>- Byddai problemau â chyflwr ac addasrwydd yr adeilad yn cael eu datrys.</p> <p>- Gellir cyflawni arbedion posib drwy ostyngiadau mewn rolau staff dyblyg, a rhannu adnoddau.</p> <p>- Byddai arbenigedd proffesiynol yn cael ei rannu ar draws yr ysgol gyfunol.</p> <p>- Byddai'r ysgol yn parhau i weithredu ar draws y safleoedd presennol.</p>	<p>- Byddai'r ddau safle yn dal â nifer helaeth o leoedd gwag.</p> <p>- Byddai rheolau ariannu Llywodraeth Cymru yn cyfyngu ar fuddsoddiad er mwyn cynnal gwaith cynnal a chadw hanfodol yn unig, yn hytrach na gwelliannau ehangach i'r amgylchedd dysgu.</p> <p>- Byddai'r costau parhaus sy'n gysylltiedig â gweithredu ar draws dau safle yn parhau i fod yn anghynaliadwy yn ariannol.</p> <p>- Ni fyddai'r dewis hwn yn cefnogi cyflawni targedau gostwng carbon.</p>	Byddai'r dewis hwn yn mynd i'r adael â phroblemau a nodwyd ynglŷn â chyflwr ac addasrwydd yr adeiladau a hefyd yn galluogi rhywfaint o arbedion drwy rannu adnoddau ac arbenigedd proffesiynol. Serch hynny, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r lefelau uchel o leoedd gwag na'r costau anghynaliadwy parhaus sy'n gysylltiedig â gweithredu ar draws dau safle. Yn ychwanegol at hynny, ni fyddai'r dewis hwn yn arwain at ddarparu amgylchedd dysgu i gefnogi dysgu ac addysgu o safon uchel yn llwyr.
<b>Dewis 4</b>	Cau'r ddwy ysgol bresennol, eu huno i un ysgol gyfunol, a fyddai wedyn yn cael ei hadleoli i adeilad newydd pwrpasol ar safle presennol Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Byddai gan yr ysgol arfaethedig le i 315 o ddisgyblion a 30 o blant cyfwerth â llawn	<p>- Byddai'r dewis hwn yn ddarparu digon o leoedd ysgol i ddiwallu anghenion presennol a dyfodol yr ardal leol.</p> <p>- Byddai costau cynnal yn cael eu gostwng yn sylweddol o weithredu un ysgol yn hytrach na dwy ysgol ar wahân.</p>	<p>- Cau'r ysgolion presennol fel y maent, gan gynnwys colli Ysgol Gynradd Saltney Ferry fel ysgol ar wahân.</p> <p>- y posibilrwydd o ddiswyddiadau staff sy'n godi o drosglwyddo o ddwy ysgol i un ysgol gyfunol.</p> <p>- Effaith bosib ar bellteroedd teithio ar</p>	Mae'r dewis hwn wedi cael ei nodi fel y dewis a ffeifrir, gan y byddai'n lleihau'r lleoedd gwag o fewn y sector cynradd o fewn yr ardal, yn cyflawni arbedion drwy leihau costau cynnal, a ddarparu amgylchedd dysgu modern sy'n addas at y diben, ac yn gallu cefnogi a gwella cyfleoedd dysgu ar gyfer pob dysgwr.

	amser yn y feithrinfa.	<p>- Byddai ysgol newydd fodern yn cael ei sefydlu, gan gynnig cyfleusterau ac adnoddau gwell i gefnogi cyfleoedd dysgu.</p> <p>- Byddai uno'r ddwy ysgol yn galluogi i gymunedau'r ysgolion ddod ynghyd, gan rannu profiad ac arferion da i gefnogi gwell ganlyniadau i ddysgwyr.</p>	<p>gyfer dysgwyr sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry, a fyddai angen mynychu'r ysgol newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.</p> <p>- Costau uwch yn nhermau cyfalaf a dyled.</p>	
--	------------------------	--	--	--

### Beth fydd y cynnig a ffafrir yn ei gyflawni?

Os caiff ei weithredu, disgwylir bydd y cynnig yn lleihau nifer y lleoedd gwag cynradd yn yr ardal, yn arwain at arbedion effeithlonrwydd drwy leihau costau rhedeg ac yn darparu amgylchedd dysgu newydd, modern sy'n addas i'r diben ac wedi'i ddylunio i wella cyfleoedd addysgol ar gyfer y plant. O wneud hynny, byddai'n cefnogi'r Cyngor wrth gyflawni ei ddyletswyddau i ddiogelu darpariaeth addysg effeithlon, ac i sicrhau bod lleoedd ysgol addas ar gael yn y lleoliadau iawn.

## RHAN D – EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG

### D1: Effaith ar yr Amgylchedd Lleol

Nid oes datblygiadau tai mawr wedi cael eu nodi o fewn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, a fyddai'n cynyddu niferoedd disgyblion yn sylweddol o fewn ardal Saltney. O ganlyniad, nid oes cynnydd i niferoedd disgyblion, na phwysau amgylcheddol neu gludiant cysylltiedig sy'n codi o dwf preswyl, yn sgil cyfnod y Cynllun hwn. Er bod y Cyngor yn cydnabod efallai bydd symudiad trawsffiniol disgyblion yn digwydd o wybod pellter Caer, nid oes disgwyl i hyn effeithio galw cyffredinol y disgyblion o fewn yr ardal.

Rhodddwyd ystyriaeth i effeithiau amgylcheddol a chludiant y datblygiadau arfaethedig er mwyn nodi'r ymgynghoriad hwn. Mae'n cael ei nodi efallai bydd y cynnig yn arwain at yr effeithiau lleol arferol o gael cyfleuster ysgol newydd, gan gynnwys newidiadau i symudiadau traffig ar adegau prysur, ac effeithiau dros dro yn ystod y cam adeiladu. Byddai asesiad manwl o'r materion hyn, ynghyd â nodi a diogelu mesurau lliniaru priodol, yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses gwneud cais cynllunio statudol. Byddai hyn yn cynnwys ystyriaethau cynhyrchu traffig, diogelwch ar y ffyrdd, rheoli adeiladu, ac effaith adeiladu a gweithrediad parhaus yr ysgol ar yr amgylchedd lleol ac amwynder preswyl.

Mae Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd Gwasanaethau Stryd Cyngor Sir y Fflint wedi ymgymryd ag asesiad cychwynol o lwybrau cerdded i safle arfaethedig yr ysgol yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a Darpariaeth Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol Llywodraeth Cymru (Mehefin

2014). Pwrpas yr asesiad hwn oedd pennu a ddylai'r llwybrau a nodwyd gael eu dosbarthu fel rhai sy'n beryglus ar gyfer teithio i, ac o'r ysgol.

Daeth yr asesiad i'r casgliad nad oedd y llwybrau cerdded a nodwyd yn beryglus. Mae'r llwybrau yn elwa ar droedffyrdd parhaus ac addas, gan alluogi cerddwyr i deithio heb angen mynd ar y briffordd. Pan mae angen croesfannau ar draws priffyrdd, bydd cyfleusterau croesi a reolir i gerddwyr ar waith. Gyda'i gilydd, mae'r llwybrau a aseswyd yn disgyn o fewn ardaloedd â therfyn cyflymder o 20 milltir yr awr, sy'n cyfrannu'r gadarnhaol i ddiogelwch cerddwyr. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu cerdded yn ddiogel gyda chwmni, yn unol â'r canllawiau statudol.

Mae'r llwybrau a nodwyd yn bennaf yn cysylltu ardaloedd preswyl o fewn Saltney yn uniongyrchol i safle'r ysgol drwy rwydweithiau cerddwyd a sefydlwyd. O ystyried natur fach y gymuned, disgwylir y bydd cerdded yn parhau i fod y dull pennaf o deithio ar gyfer y mwyafrif o ddysgwyr.


Mae llwybr cerdded diogel eisoes yn bodoli o amgylch Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac yn cysylltu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Fel rhan o'r cynllun arfaethedig, byddai cyfleoedd i wella cysylltedd cerddwyr a beicwyr yn cael eu hystyried, yn amodol ar ddichonoldeb a chanlyniadau'r broses cynllunio, ac yn unol ag egwyddorion teithio llesol.

Mae asesiad y Gwasanaethau Stryd hefyd yn cydnabod y gallai pwysau traffig a pharcio lleol godi mewn strydoedd ger y safle, yn benodol mewn perthynas â threfniadau mynediad. Mae'r angen posib ar gyfer mesurau megis rheoli neu gyfyngiadau parcio wedi cael eu nodi, a byddai'r materion hynny yn cael eu harchwilio'n bellach drwy'r broses gynllunio a phriffyrdd fanwl, gan weithio ar y cyd gyda phreswylwyr lleol a thimau perthnasol.

Mae gwasanaethau bysiau lleol o fewn ardal Saltney yn darparu cysylltiadau ar draws yr ardal leol ac ehangach. Er bod disgwyl i'r mwyafrif o ddysgwyr deithio ar droed, mae'r gwasanaethau hyn yn darparu dewis cynaliadwy arall i staff, ymwelwyr, a lle bo'r angen, dysgwyr.

Byddai llwybrau diogel i ysgolion a threfniadau teithio llesol yn cael eu datblygu mewn partneriaeth gyda thimau Cynllunio a Gwasanaethau Stryd Cyngor Sir y Fflint. Byddai strategaeth deithio gydlynol a chynllun teithio ysgolion diweddar yn cael eu gweithredu er mwyn hyrwyddo dewisiadau teithio cynaliadwy ac amgylcheddol gyfrifol, gan gynnwys cerdded, beicio, a defnydd cludiant cyhoeddus lle bo'n briodol. Yn gyffredinol, disgwylir bod y cynnig yn cefnogi ymddygiad teithio cynaliadwy, ac nid oes disgwyl iddo gael effaith niweidiol ar hygyrchedd na phresenoldeb dysgwyr.

Map asesiad o lwybrau peryglus ar gyfer llwybrau rhwng Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa



*Saltney Wood.*

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Pan mae dysgwr yn cael ei nodi fel eu bod angen cefnogaeth ychwanegol gyda theithio, byddai eu hanghenion unigol yn cael eu hasesu gan dîm ADY y Cyngor. Pan fo'n briodol, ac yn amodol ar ystyriaeth y panel, byddai trefniadau teithio addas a chyfrannol yn cael eu darparu yn unol â chyfrifoldeb statudol y Cyngor, er enghraifft, drwy ddarpariaeth cludiant arbenigol megis tacsis neu gynorthwyr cludiant pan fo'r angen.

Byddai'r ysgol newydd arfaethedig yn cael ei dylunio i fodloni safonau Gweithredu'n Garbon Sero Net (NZCio). Byddai hyn yn lleihau allyriadau carbon drwy effeithiolrwydd gwneuthuriad adeiladau gwell, ymgorfforiad technolegau ynni adnewyddadwy, a defnydd awyru a chysgodi naturiol. Byddai'r cynnig felly yn cyfrannu at leihau ôl troed carbon cyffredinol y Cyngor, ac yn cefnogi ei amcanion datgarboneiddio a chynaliadwyedd ehangach, gan gyd-fynd â pholisi cenedlaethol, a'r nodau lles a osodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

---

## **D2: Effaith ar Ddisgyblion o Gefndiroedd Difreintiedig yn Economaidd**

---

Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith bosibl cynnig ar ddysgwyr o gefndiroedd economaidd difreintiedig, yn cynnwys y rheiny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Mae Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn gwasanaethu cymunedau sy'n cynnwys ardaloedd o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod dysgwyr o gefndiroedd economaidd difreintiedig yn gallu bod yn fwy sensitif i newidiadau yn eu hamgylchedd dysgu ac efallai angen cefnogaeth ychwanegol yn ystod cyfnodau o newid.

Mae gan y cynnig y posibilrwydd i ddarparu nifer o fanteision hirdymor ar gyfer y dysgwyr hyn. Byddai sefydlu un ysgol gyfunol fwy o ran maint yn galluogi defnydd mwy effeithlon o adnoddau, ac yn cryfhau gallu'r ysgol i ddarparu cefnogaeth a dargedwyd, gan gynnwys defnydd y Grant Datblygu Disgyblion. Disgwylir mynediad i amgylchedd dysgu gwell, ystod fwy eang o gyfleusterau, a threfniadau cefnogaeth fugeiliol a lles cyson, i gefnogi ymgysylltiad a chyrhaeddiad.

Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y bydd yna heriau tymor byr ynghlwm wrth y cynnig. Gall y rhain gynnwys amhariadau yn sgil symud i ysgol newydd, newidiadau i berthnasoedd gyda staff a chyfoedion ac, i rai dygwyr sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry, mwy o amser teithio. Mae gan y ffactorau hyn y potensial i gael effaith sylweddol ar ddysgwyr o gefndiroedd economaidd difreintiedig, os nad yw'n cael ei reoli'n effeithiol.

I fynd i'r afael â hyn, byddai trefniadau cefnogi priodol yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r amhariadau ac i gefnogi parhad o ran dysgu a lles disgyblion. Byddai hyn yn cynnwys rhaglen bontio â strwythur, cefnogaeth fugeiliol wedi'i thargedu ar gyfer dysgwyr diamddiffyn, mynediad parhaus at brydau ysgol am ddim chymorth cysylltiedig, a threfniadau i fonitro presenoldeb, ymgysylltiad a chyrhaeddiad yn ofalus. Byddai'r ysgol hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o'r ffynonellau ariannu sydd ar gael i ddarparu ymyraethau wedi'u targedu a lleihau rhwystrau at ddysgu, ynghyd ag ymgysylltiad parhaus gyda rhieni a gofalwyr.

Gan ystyried y ffactorau hyn, a gyda mesurau lliniaru priodol yn eu lle, mae'r Cyngor yn credu bod gan y cynnig y potensial i arwain at ganlyniadau addysg gwell i ddysgwyr o gefndiroedd economaidd difreintiedig yn yr hirdymor.

---

## **D3: Effaith ar Dderbyniadau**

---

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod derbyn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac mae derbyniadau yn cael eu dyrannu yn unol â Pholisi Derbyn y Cyngor ar hyn o bryd.

Os yw'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, Cyngor Sir y Fflint fyddai'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol gyfunol newydd, a byddai derbyniadau yn parhau i gael eu pennu yn unol â threfniadau derbyniadau y Cyngor, a'r Cod Derbyn i Ysgolion.

Byddai digon o le ar gael o fewn yr ysgol newydd arfaethedig ar gyfer yr holl ddisgyblion sydd ar gofrestr bresennol Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood sy'n dymuno trosglwyddo. Ni fyddai angen gwneud cais ar gyfer y disgyblion presennol hynny o ganlyniad i'r uno.

Yn unol â pholisi derbyniadau Cyngor Sir y Fflint, gall rhieni a gofalwyr plant nad ydynt ar y gofrestr eto fynegi ffafriaeth dros ysgol. Serch hynny, nid yw dyraniad lleoedd yn cael eu gwarantu ac yn parhau yn amodol ar argaeledd, a chymhwysiad meini prawf gormod o leoedd y Cyngor pan mae gormod o geisiadau i'r ysgol.

Byddai'r ysgol arfaethedig yn gweithredu ffurflen mynediad ysgol gynradd 1.5, gyda Nifer Derbyniadau a Gyhoeddwyd o 45 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn. Mae'r model hwn yn adlewyrchu nifer y disgyblion rŵan

a'r niferoedd a ragwelir yn yr ardal, a'r bwriad yw cefnogi darpariaeth addysg effeithlon a chynaliadwy, yn cynnwys cynnal meintiau dosbarthiadau hyfyw a defnyddio staff ac adnoddau yn effeithiol. Bydd strwythur dosbarthiadau yn cydymffurfio â'r rheoliadau statudol ar faint dosbarthiadau, yn cynnwys hyd at 30 o blant mewn dosbarth Cyfnod Sylfaen a dosbarthiadau o 30 neu lai yng nghyfnod allweddol 2.

Wrth ddatblygu'r cynnig ystyriwyd a fyddai modd darparu model darparu tebyg gan gadw'r ddwy ysgol. Fodd bynnag, byddai'r dull hwn yn llai effeithiol wrth fynd i'r afael â'r materion allweddol a nodwyd, yn cynnwys lleoedd gwag, yr angen i wella cyfleusterau a phwysigrwydd sicrhau arweinyddiaeth gynaliadwy a darpariaeth gydlynol ar draws yr ardal.

Ni fyddai'r cynnig yn newid Polisi Derbyn i Ysgolion Cyngor Sir y Fflint. Byddai derbyniadau i'r ysgol newydd yn parhau i gael eu gwneud yn unol â dewis rhieni, yn amodol ar argaeledd lleoedd, a chymhwysiad meini prawf gormod o geisiadau'r Cyngor lle bo'r angen.

Mae rhagor o wybodaeth am bolisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor a'r broses dderbyniadau ar gael ar wefan y Cyngor:

<https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Admissions.aspx>

---

#### **D4: Effaith ar Gludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol**

---

Dan Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Cyngor Sir y Fflint, darperir cludiant am ddim i ddysgwyr oedran cynradd sy'n byw dwy filltir o'u hysgol agosaf addas, neu fel arall yr ysgol agosaf sydd ar gael, fel y pennwyd yn unol â pholisi'r Cyngor, a Darpariaeth Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol.

Ni fydd y cynnig hwn yn newid Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor. Byddai cymhwyster yn parhau i gael ei asesu fel y mae rŵan, yn seiliedig ar bellter, amser teithio, diogelwch llwybrau ac amgylchiadau dysgwyr unigol, ac yn unol â'r canllawiau statudol.

Er mwyn nodi'r ymgynghoriad hwn, gwnaed dadansoddiad gan dîm Cludiant y Cyngor, gan ddefnyddio data cofrestr disgyblion o fis Mawrth 2026. Mae'r dadansoddiad hwn yn darparu dealltwriaeth gyda sail dystiolaeth o batrymau teithio presennol, a'r goblygiadau mewn perthynas â theithio sy'n codi o'r cynnig. Mae'r dadansoddiad yn cadarnhau mai cerdded yw'r prif ddull o deithio ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu'r ddwy ysgol, a disgwylir i hyn barhau dan y trefniadau arfaethedig.

Mae'r Cyngor wedi ystyried y siwrnai debygol rhwng y safleoedd ysgol presennol hefyd. Mae'r pellter rhwng Ysgol Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood tua 1.3 milltir. Mae hyn yn cyfateb i amser cerdded o tua 25 i 30 munud ar gyfer plentyn oedran cynradd â chwmni, sy'n cael ei ystyried i fod o fewn pellter rhesymol, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

#### **Safle cludiant presennol**

Yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn byw o fewn pellter cerdded rhesymol i'r ysgol. Yn seiliedig ar ddata mis Mawrth 2026, roedd 96.3% o ddisgyblion gydag Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn un o'u hysgolion cynradd cymunedol agosaf yn byw dwy filltir o'r safle, gyda phellter cerdded cyfartalog o 0.41 milltir ar gyfer y sawl sy'n mynychu eu hysgol addas agosaf. Nid oes disgyblion sy'n bodloni'r meini prawf pellter ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol am ddim, ac nid oes costau presennol i'r Cyngor ar gyfer cludo disgyblion i Saltney Ferry.

Yn ysgol Gynradd Goffa Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, mae patrwm tebyg. Yn seiliedig ar ddata mis Mawrth 2026, roedd 98.6% o ddisgyblion gydag Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn un o'u hysgolion

cynradd cymunedol agosaf yn byw dwy filltir o'r safle, gyda phellter cerdded cyfartalog o 0.63 milltir ar gyfer y sawl sy'n mynychu eu hysgol addas agosaf. Nid oes disgyblion sy'n bodloni'r meini prawf pellter ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol am ddim, ac nid oes costau cludiant cysylltiedig i'r Cyngor.

### **Goblygiadau cludiant posib sydd ynghlwm â'r cynnig**

Cynigir bod y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ar hyn o bryd yn trosglwyddo i ysgol newydd ar safle Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn dilyn ei chau. Y pellter cerdded cyfartalog ar gyfer y disgyblion hynny fyddai tua 1.27 milltir, sydd o fewn y pellter cerdded statudol ar gyfer dysgwyr o oedran cynradd.

Yn seiliedig ar ddyraniad disgyblion, pellteroedd cerdded, amseroedd siwrnai ac asesiadau diogelwch llwybr a gynhaliwyd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, disgwylir na fydd unrhyw ddisgybl sy'n trosglwyddo o Saltney Ferry i Goffa Saltney Wood yn bodloni'r meini prawf pellter ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol. O ganlyniad, ni ddisgwylir unrhyw gostau cludiant o'r cartref i'r ysgol ychwanegol i'r Cyngor o ganlyniad i'r cynnig, yn seiliedig ar ddata presennol.

Ar gyfer disgyblion sy'n mynd i Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ar hyn o bryd, ni fyddai'r cynnig yn arwain at unrhyw newid i bellteroedd cerdded, amser siwrneiau na chymhwysedd cludiant. Felly, ni fyddai'r safle cludiant, a chostau cysylltiedig yn newid.

O wybod y byddai'r mwyafrif o ddysgwyr yn byw o fewn pellter cerdded rhesymol i'r ysgol arfaethedig, a bod llwybrau diogel a hygyrch wedi cael eu nodi, ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith negyddol ar bresenoldeb nac ymgysylltiad dysgwyr.

### **Anghenion Dysgu Ychwanegol ac amgylchiadau eithriadol**

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw meini prawf pellter yn cynnwys yr holl amgylchiadau personol. Pan mae gan ddysgwr Anghenion Dysgu Ychwanegol neu ffactorau eraill sy'n effeithio ar eu gallu i deithio i'r ysgol yn annibynnol, byddai cymhwysedd cludiant yn parhau i gael ei ystyried ar sail achosion unigol. Byddai achosion o'r fath yn cael eu hasesu gan y Cyngor yn unol â'i ddyletswyddau statudol, trefniadau panel a sefydlwyd, a chyngor proffesiynol perthnasol.

Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn cynnal patrymau teithio cynaliadwy presennol, gyda cherdded yn parhau i fod y prif ddull o deithio, ac nid yw'n arwain at fwy o alw am gludiant na chynnydd i gostau.

---

#### **D5: Effaith ar Drosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd**

Ar hyn o bryd, mae disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney. Ni fydd unrhyw newid yn y trefniadau presennol ar gyfer trosglwyddo i addysg uwchradd.

---

#### **D6: Effaith ar Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae'r effaith bosib y cynnig hwn ar ddisgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi cael ei hystyried yn ofalus. Nid bwriad y cynnig hwn y lleihau na dileu'r ddarpariaeth ADY bresennol sydd eisoes ar gael yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry neu Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

Byddai trefniadau ar gyfer disgyblion gydag ADY yn parhau i gael eu nodi gan anghenion unigol, gyda chefnogaeth yn cael ei chynllunio a'i darparu yn unol â gofynion statudol a Chynlluniau Datblygu Unigol (CDU). Byddai parhau â chefnogaeth yn ystod y cyfnod pontio yn ystyriaeth allweddol.

Dros amser, byddai disgwyl i'r adeilad ysgol newydd ddarparu safle a chyfleusterau gwell sydd â'r posibilrwydd o gefnogi ystod eang o gyfleoedd dysgu ac anghenion dysgu yn well. Serch hynny, mae'n cael ei gydnabod y byddai'r effaith ar ddisgyblion unigol yn amrywiol, ac y bydd angen cynllunio a goruchwyllo'n ofalus.

Mae goblygiadau manwl o'r cynnig ar gyfer dysgwyr ag ADY wedi cael eu hasesu drwy Ddatganiad Effaith ADY, sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad, ac a ddylid ei ddarllen ar y cyd â'r ddogfen hon.

---

## **D7: Effaith ar Drefniadau Llywodraethu**

---

Yn dilyn y cynnig i gau ac uno Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, byddai corff llywodraethu dros dro yn cael ei sefydlu yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Cymru, a Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd 2005 (y Rheoliadau). Mae'r rhain yn nodi'r rheoliadau ar gyfer llywodraethu ysgolion a gynhelir newydd yng Nghymru ac yn pennu'r terfynau amser ar gyfer sefydlu corff llywodraethu dros dro, y nifer, a'r mathau o lywodraethwyr, math yr ysgol newydd, a sut y dylent gael eu henwebu.

Byddai'r corff llywodraethu dros dro yn gyfrifol am oruchwyllo trefniadau llywodraethu'r ysgol gyfunol newydd yn arwain at ei dyddiad sefydlu, a bodoli ddim hwyrach nag un tymor ar ôl y dyddiad sefydlu.

Byddai'r corff llywodraethu dros dro yn gweithio gyda'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod y trefniadau arweinyddiaeth briodol, staffio, polisïau a phrosesau gweithredu ar waith, er mwyn cefnogi'r trosglwyddiad o'r ddwy ysgol bresennol i un ysgol gyfunol sy'n gweithredu i ddechrau ar y ddau safle presennol.

Wedi hynny, mae proses lle mae'r Awdurdod yn cyfansoddi corff llywodraethu parhaol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dyddiad agor yr ysgol, ond dim hwyrach na diwrnod olaf y tymor o ddyddiad sefydlu'r ysgol.

---

## **D8: Effaith ar Staffio**

---

Disgwylir y byddai'r cynnig i uno yn cael effaith gyfyngedig ar drefniadau staffio i ddechrau, gyda chynnal y lefelau darpariaeth presennol. Yn ystod y cam cychwynnol byddai'r ddwy ysgol yn parhau i weithredu o'u safleoedd presennol, a'r prif newid o ran staffio fyddai penodi un pennaeth i arwain y ddwy ysgol.

Mae'r Cyngor yn nodi bod trefniadau arwain gwahanol ar draws y ddwy ysgol ar waith, gan gynnwys arweinyddiaeth dros dro yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry, a phennaeth annibynnol yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Byddai sefydlu un corff llywodraethu, a phenodi pennaeth annibynnol ar gyfer ysgol gyfunol yn darparu mwy o sefydlogrwydd a chysondeb i arweinyddiaeth ar draws y ddau safle.

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Cymru 2026, byddai'r corff llywodraethu dros dro, a gefnogwyd gan Gyngor Sir y Fflint, a'i wasanaeth Adnoddau Dynol, yn ymgymryd â phroses deg a thryloyw wrth benodi pennaeth i arwain yr ysgol gyfunol.

Ar ôl penodi pennaeth, byddai'r corff llywodraethu dros dro, gan weithio gyda'r pennaeth a'r awdurdod lleol, yn penderfynu ar y strwythur staffio mwyaf priodol i gefnogi gweithrediad yr ysgol gyfunol. Bydd prosesau recriwtio i swyddi newydd neu ddiwygiedig yn cael eu dilyn yn ôl yr angen. Ni ragwelir y bydd llawer o newidiadau strwythurol ar y cam hwn gan y bydd yr ysgol yn cael ei chynnal ar draws y safleoedd presennol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod newid trefniadol yn gallu creu ansicrwydd i staff, ac mae'n ymrwymo i gefnogi staff drwy gydol y broses. Byddai cefnogaeth briodol yn cael ei darparu drwy drefniadau Adnoddau Dynol, gan gynnwys gohebiaeth, ymgysylltiad gydag unedau llafur, a mynediad i wasanaethau cefnogi lles gweithwyr, megis Vivup.

Bydd unrhyw newid i'r trefniadau staffio, yn cynnwys newidiadau sy'n gysylltiedig â symud i'r cyfleuster newydd arfaethedig, yn cael ei reoli yn unol â'r trefniadau statudol a'r contractau, yn cynnwys ymgynghoriad ac ymgysylltu gyda staff ac undebau llafur.

Dros amser, byddai uno'r ysgol yn galluogi staff o'r ddwy ysgol i weithio'n agosach gyda'i gilydd, gan gefnogi rhannu arbenigedd ac arfer orau. Fel ysgol fwy o ran maint, efallai byddai mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a datblygiad gyrfa, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer swyddi arwain a rheoli.

---

## **D9: Effaith ar Ysgolion Eraill**

---

Dyluniwyd yr ysgol arfaethedig gyda digon o le ar gyfer y niferoedd disgyblion presennol a mwy yn cofrestru yn y dyfodol o Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd, fel gydag unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion, rhai rhieni yn mynegi ffafriaeth i ysgolion cyfagos eraill. Gall rhain gynnwys Ysgol Gynradd Brychdyn yn Sir y Fflint, yn ogystal ag Ysgol Gynradd Lache, yn Lloegr, ac yn hygyrch yn ddaearyddol i rai teuluoedd. Nid oes unrhyw ysgolion ychwanegol wedi cynnig derbyn disgyblion yn ffurfiol, fel rhan o'r cynnig hwn.

O ran nifer y disgyblion, nid yw'r Cyngor yn credu y byddai'r ysgolion hyn yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan y cynnig gan nad yw'n cyfeirio disgyblion at ysgolion eraill, ac ni ddisgwylir iddo arwain at newid sylweddol yn y ddarpariaeth. Er hynny, mae'r Cyngor wedi ystyried effaith bosibl hyn ar sail gyfatebol. Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi dysgwyr i aros o fewn system addysg Cymru lle bo'n bosib, a hyrwyddo defnydd a datblygiad y Gymraeg, yn unol â'i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith bosib y cynnig ar ysgolion cyfagos, megis Ysgol Gynradd Brychdyn. Yn seiliedig ar ddata cyfredol disgyblion, gwybodaeth am leoedd a phatrymau dewis lleol rhieni o fewn Sir y Fflint, mae'r Cyngor yn fodlon bod digon o le yn yr ardal leol ar gyfer ychydig o amrywiad i'r galw, ac ni ddisgwylir effaith negyddol sylweddol ar Ysgol gynradd Brychdyn.

Mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Lache, mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn academi o fewn Ymddiriedolaeth Aml-academi Concordia, ac o ganlyniad mae'n gweithredu o fewn ei threfniadau derbyn ei hun. Er bod derbyniadau'n cael eu cydlynu gan Gyngor Gorllewin Swydd Caer a Chaer fel rhan o system derbyn Lloegr, nid oes gan y Cyngor y wybodaeth fanwl am leoedd, derbyniadau na rhagamcan o niferoedd disgyblion.

Er bod gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus a gwybodaeth leol wedi'i hystyried, er gwaethaf yr ymdrechion, ni fu'n bosibl cael yr holl ddata cymharol sydd ar gael ar gyfer ysgolion yn Sir y Fflint. Mae'r awdurdod perthnasol wedi cael ei gynnwys fel ymgynghorai statudol yn rhan o'r broses hon.

Fodd bynnag, gan ystyried agoswydd yr ysgolion, patrymau o ran ffafriaeth rhieni a chroesi'r ffin, a'r capasiti a ddarperir yn yr ysgol newydd, ystyrir y bydd yr effaith ar yr ysgolion hyn yn fach iawn os hynny. Cydnabyddir bod ychydig o ansicrwydd ynghylch trefniadau trawsffiniol oherwydd gwahaniaethau mewn systemau llywodraethu a derbyn.

Mae'r Cyngor wedi ystyried lle ar draws y rhwydwaith ysgolion cynradd lleol ehangach, ac yn fodlon bod digon o hyblygrwydd i ymateb i amrywiadau o ran dewis rhieni. Bydd derbyniadau i ysgolion o fewn Sir y Fflint, gan gynnwys Ysgol Gynradd Brychdyn, yn parhau i gael eu rheoli yn unol â'r trefniadau derbyn a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Mae derbyniadau i academiâu yn Lloegr, gan gynnwys Ysgol Gynradd Lache, yn cael eu pennu gan yr ymddiriedolaeth berthnasol, a'u cydlynu gan broses dderbyn awdurdodau lleol Lloegr, ac nid yw'r cynnig hwn yn newid trefniadau trawsffiniol sydd eisoes yn bodoli.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod y cynnig hwn yn derbyn ymgynghoriad, ar y cyd gyda chynnig ar wahân sy'n ymwneud ag Ysgol Gynradd Gatholig Sant Anthony. Pe bai'r cynnig hwnnw'n parhau, mae'n bosibl y bydd rhai rhieni a gofawyr yn dewis gwneud cais am leoedd yn yr ysgol gynradd newydd arfaethedig yn Saltney. Byddai cais o'r fath yn cael ei ystyried yn unol â pholisi derbyniadau Cyngor Sir y Fflint, gan ystyried capasiti'r ysgol a'r niferoedd derbyn.

Mae'n cael ei gydnabod, os yw'r cynnig sy'n ymwneud ag Ysgol Gynradd Gatholig Sant Anthony yn bwrw 'mlaen, efallai bydd rhai dysgwyr eisiau trosglwyddo i'r ysgol newydd arfaethedig, y benodol pan mae rhieni a gofawyr yn chwilio am addysg ffydd. Dyluniwyd lle'r ysgol newydd arfaethedig er mwyn darparu digon o hyblygrwydd i fodloni'r galw posib yn lleol o fewn yr ardal.

## D10: Risgiau'r Prosiect

Rhestrir isod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig a'r ffactorau sy'n lliniaru arnynt:

<b>Risgiau'r Prosiect</b>	
<b>Risgiau</b>	<b>Camau Lliniaru</b>
Mae risg y byddai cyllid ar gael yn annigonol er mwyn cyflawni'r prosiect fel sy'n cael ei gynnis, a allai effeithio ar gwmpas, terfynau amser, neu hyfywedd cyffredinol y cynllun.	Bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu rhagamcanion o gostau werth i'r dyluniad ddangos cynnydd, a bydd yn adolygu'r prosiect yn erbyn y ffrydiau cyllid cyfalaf sydd ar gael. Bydd y cyllid yn cael ei ddylunio er mwyn sicrhau gwerth am arian, a bydd cyfleoedd i fireinio elfennau o'r dyluniad yn cael eu hystyried pan fo'r angen er mwyn alinio'r prosiect gyda'r adnoddau sydd ar gael. Bydd y Cyngor yn parhau i archwilio a diogelu cyfleoedd cyllid allanol perthnasol, yn unol â rhaglenni cyfalaf Llywodraeth Cymru.
Mae risg y gallai'r galw am leoedd i ddisgyblion o fewn yr ardal leol gynyddu tu hwnt i'r rhagamcanion presennol, gan roi pwysau ar gapasiti yr ysgol newydd arfaethedig o bosib.	<p>Mae rhagamcanion o niferoedd disgyblion wedi cael eu defnyddio i nodi capasiti arfaethedig yr ysgol newydd, gan ystyried data cofrestru presennol, tueddiadau demograffig, a'r galw posib yn y dyfodol. Bydd niferoedd disgyblion yn parhau i gael eu monitro'n ofalus drwy gydol datblygiad y prosiect, gan gynnwys hyd at bwynt pan mae briff a dyluniad yr adeilad yn cael eu cytuno, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth arfaethedig yn parhau i fod yn addas.</p> <p>Bydd y capasiti arfaethedig yn darparu hyblygrwydd digonol er mwyn lletya amrywiad yn niferoedd y disgyblion, a bydd y broses ddylunio yn ceisio sicrhau bod yr adeilad yn gallu cael eu haddasu neu ei ehangu yn y dyfodol, lle bo'n ymarferol, os yw'r galw hirdymor yn parhau i fod tu hwnt y rhagamcanion presennol.</p> <p>Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro niferoedd disgyblion drwy ei brosesau cynllunio lleoedd ysgolion, a bydd yn parhau i adolygu capasiti ysgolion lleol er mwyn sicrhau bod digon o ddarpariaeth yn yr ardal leol.</p>
Mae risg bod y cynnig i gau Ysgol Gynradd Gatholig Sant Anthony yn parhau neu ddim yn parhau fel y disgwyl, a allai effeithio ar y galw yn y dyfodol ar gyfer lle i	Mae cynnig i gau Ysgol Gynradd Gatholig Sant Anthony yn parhau ar wahân, gyda chynnig o ddyddiad gweithredu ar gyfer mis Medi 2027. O ganlyniad, byddai canlyniad y cynnig hwnnw'n hysbys, a gellir ei ystyried yn llwyr yn ystod datblygiad dyluniad yr ysgol gyfunol newydd.

<p>ddisgyblion, a dylanwadu ar y gofynion lleoedd ar gyfer yr ysgol gyfunol arfaethedig.</p>	<p>Bydd niferoedd disgyblion a phatrymau posib dewis rhieni yn parhau i gael eu monitro drwy gydol y broses ddylunio ar gyfer yr ysgol newydd. Byddai hyn yn sicrhau bod y capasiti a'r cynllun arfaethedig yn parhau i fod yn briodol i ddiwallu'r galw yn sigl y ddau senario posib. Byddai dyluniad yr ysgol newydd yn ceisio darparu graddfa o hyblygrwydd er mwyn ymateb i newid mewn galw lle bo'n ymarferol, a bydd yn cael ei nodi gan ddata diweddar cyn cytuno ar friff yr adeilad.</p>
<p>Mae risg efallai na fyddai'r cynnig yn cael ei gefnogi na'i gymeradwyo gan Cabinet Cyngor Sir y Fflint, a allai atal y prosiect rhag bwrw 'mlaen yn unol â'r cynnig.</p>	<p>Datblygwyd y cynnig yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgol Cymru 2026, ac mae'n cael ei nodi gan ragamcanion disgyblion, ystyriaethau ariannol, ac asesiadau o effaith addysgol ac amgylcheddol. Mae ymgynghoriad statudol cynhwysfawr yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod barn budd-ddeiliaid yn cael eu hystyried a'u hadlewyrchu lle bo'n briodol.</p> <p>Bydd adborth a dderbyniwyd drwy'r broses ymgynghori yn cael ei ddadansoddi a'i adrodd i'r Cabinet, ynghyd ag asesiad llawn o'r cynnig, y risgiau a nodwyd, a'r mesurau lliniaru arfaethedig. Bydd hyn yn cefnogi proses o wneud penderfyniadau ystyrlon, a sicrhau bod aelodau Cabinet yn gallu ystyried y dystiolaeth berthnasol cyn dod i benderfyniad.</p>
<p>Mae risg efallai na fyddai'r cynnig yn cael ei gefnogi gan fudd-ddeiliaid, a allai arwain at wrthwynebiadau, heriau, neu oedi yn y broses o wneud penderfyniadau.</p>	<p>Mae ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Cymru er mwyn sicrhau bod budd-ddeiliaid yn cael y cyfle i ddeall y cynnig a mynegi eu barn. Bydd ymatebion yn cael eu dadansoddi a'u hadrodd yn dryloyw, gydag addasiadau priodol yn cael eu hystyried lle bo'n ymarferol i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.</p>
<p>Mae risg y gallai'r broses o uno a phontio arwain at amhariad i brofiad y dysgwyr os nad yw'n cael ei rheoli'n iawn.</p>	<p>Byddai trefniadau dros dro yn cael eu cynllunio a'u gweithredu'n ofalus i sicrhau parhad dysgu a chefnogaeth fugeiliol. Byddai trefniadau arwain, staffio a llywodraethu yn canolbwyntio ar leihau amhariad a chefnogi lles dysgwyr drwy gydol y cyfnod pontio ac adsefydlu i'r ysgol newydd.</p>
<p>Mae risg y gallai'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r broses uno effeithio ar ysbryd staff neu'r gallu i'w cadw.</p>	<p>Bydd gohebiaeth glir, ymgysylltiad ac ymgynghoriad gyda staff ac undebau llafur yn cael eu cynnal drwy gydol y broses. Darperir cefnogaeth drwy drefniadau AD er mwyn sicrhau bod staff yn cael y newyddion diweddaraf, yn cael eu cefnogi a'u cynnwys wrth i'r cynnig ddangos cynnydd</p>
<p>Mae risg y gallai oedi yn y rhaglen adeiladu effeithio ar ddyddiad agor yr ysgol newydd.</p>	<p>Bydd rhaglen y prosiect yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, a'i rheoli drwy drefniadau llywodraethu prosiect cyfalaf, gyda chynlluniau wrth gefn er mwyn ymateb i risgiau newydd a dibyniaethau.</p>
<p>Mae risg y gallai'r cynnig fod yn destun her gyfreithiol, gan gynnwys Adolygiad Barnwrol, os yw'n cael ei ystyried nad yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion statudol,</p>	<p>Datblygwyd y cynnig yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026). Mae ymgynghoriad statudol tryloyw, llawn, yn cael ei gynnal, gan sicrhau bod budd-ddeiliaid yn cael y cyfle i ymgysylltu ac ymateb. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried a'u hadrodd yn ofalus, a bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud yn unol â gofynion</p>

<p>neu nad yw wedi rhoi digon o sylw i ystyriaethau perthnasol.</p>	<p>statudol, ac yn seiliedig ar asesiad llawn o'r effeithiau addysgol, ariannol a chymunedol. Bydd cyngor cyfreithiol yn cael ei geisio drwy gydol y broses, er mwyn sicrhau a lleihau'r risg o her.</p>
<p>Mae risg na fyddai dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu nodi neu eu hadnabod yn llawn ar gam cynnar.</p>	<p>Bydd cydraddoldeb ac ystyriaethau am ADY yn parhau i nodi'r cynllun a'r gweithrediad, gydag anghenion unigol yn cael eu hasesu yn unol â dyletswyddau statudol. Cyfeirir at faterion a nodir drwy drefniadau cefnogi priodol ac addasiadau rhesymol.</p>
<p>Mae risg na fyddai'r caniatâd cynllunio yn cael ei gymeradwyo, neu'n cael ei oedi, a allai effeithio ar derfynau amser arfaethedig, a chyflawniad y prosiect.</p>	<p>Bydd y Cyngor yn ymgysylltu gyda'r gwasanaethau cynllunio, priffyrdd ac amgylcheddol perthnasol ar gam cynnar, er mwyn nodi datblygiad y cynllun arfaethedig, ac i fynd i'r afael ag unrhyw faterion posib. Bydd y broses cais cynllunio statudol yn cynnwys asesiadau manwl o draffig, mynediad, effaith amgylcheddol, ac addasrwydd y safle. Lle bo'n briodol, bydd y cynllun yn cael ei fireinio er mwyn ymateb i ofynion cynllunio, ac adborth gan fudd-ddeiliaid er mwyn gwneud y mwyaf o'r tebygolrwydd o ganiatâd.</p>

### **D11: Asesiad o Effaith Integredig**

Cynhaliwyd Asesiad o Effaith Integredig, wrth ddatblygu'r cynnig hwn. Mae'r asesiad yn ystyried effeithiau posib y cynnig ar draws meysydd statudol a pholisi, ac mae ar gael fel dogfen ar wahân.

### **D12: Effaith ar y Ddarpariaeth Gymraeg**

Mae'r effaith bosibl ar y Gymraeg wedi'i hystyried yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Cymru, a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Nid yw'r cynnig yn ceisio newid categori iaith yr ysgol. Byddai'r Gymraeg yn dal i gael ei hyrwyddo drwy addysgu, dysgu a bywyd ehangach yr ysgol yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru a threfniadau iaith presennol yr ysgolion.

Er nad yw'r cynnig hwn yn cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Gymraeg yn uniongyrchol, ni ystyrir y byddai'n cael effaith niweidiol sylweddol ar ddefnydd na hyrwyddiad y Gymraeg o fewn yr ysgol na'r gymuned leol. Bydd sgiliau Gymraeg yn parhau i gael eu datblygu a'u hyrwyddo drwy'r Cwricwlwm i Gymru a bywyd ehangach yr ysgol.

Cydnabyddir y byddai risg posib os yw nifer o ddisgyblion yn mynychu ysgolion dros y ffin yn Lloegr, a gallai hyn effeithio ar y gyfran o ddysgwyr o fewn system addysg Cymru. Serch hynny, yn seiliedig ar batrymau dewisiadau rheini, ac argaeledd darpariaeth leol, ni ddisgwylir i hyn fod yn sylweddol, nac effeithio'n fawr ar ddarpariaeth Gymraeg yn lleol. Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor yn ymrwmo i gefnogi dysgwyr i aros o fewn system addysg Cymru, a hyrwyddo defnydd a datblygiad y Gymraeg, yn unol â'i Gynllun Strategol Gymraeg mewn Addysg.

Ers 2020, mae'r Cyngor wedi gwneud buddsoddiad sylweddol mewn addysg cyfrwng Gymraeg, gyda dros £20 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn narpariaeth ysgol gynradd cyfrwng Gymraeg newydd, estyniadau i ddarpariaeth sydd eisoes yn Gymraeg, a gwaith ailwampio. Yn ychwanegol at hynny, mae'r cyllid wedi cefnogi datblygiad lleoliadau gofal plant cyfrwng Gymraeg, gan helpu i gynyddu mynediad i'r Gymraeg hyn ifanc a chefnogi cynnydd addysg cyfrwng Gymraeg.

Er bod y Cyngor yn ymrwymo i amcanion strategol ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg, mae ganddo gyfrifoldeb hefyd dros sicrhau bod darpariaeth addysgol o safon uchel ar gael i ddysgwyr, gan gynnwys y sawl sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg. Mae goblygiadau manwl y cynnig mewn perthynas â'r Gymraeg, gan gynnwys unrhyw ystyriaethau trawsffiniol, wedi cael eu hasesu drwy Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar wahân, sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn, ac a ddylid ei ddarllen ar y cyd gyda'r ddogfen hon.

---

### **D13: Effaith ar yr Adeiladau**

---

Os yw'r cynigion a amlinellwyd yn y ddogfen hon yn cael eu gweithredu, byddai safle Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn un nad oes ei angen o ran gofynion addysgol. Gan fod y ddogfen hon yn ffurfio rhan o'r broses ymgynghori gychwynnol, ni phenderfynwyd eto ynglŷn â defnydd neu warediad y safleoedd a'r adeiladau yn y dyfodol.

Byddai unrhyw ystyriaethau ar gyfer safle Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn cael eu rheoli ar wahân, ac yn unol â Pholisi mabwysiedig y Cyngor ar Dir ac Adeiladau gwag, gan gynnwys unrhyw asesiadau, caniatâd, a phrosesau ymgynghori gofynnol.

---

### **D14: Trefniadau yn y Cyfamser**

---

Byddai trefniadau dros dro yn cael eu cynllunio'n ofalus i sicrhau parhad dysgu, lles a chefnogaeth fugeiliol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Er y byddai'r ysgol gyfunol yn gweithredu ar draws dau safle i ddechrau, byddai'n gweithredu fel un gymuned ysgol, gan rannu arweinyddiaeth, polisïau ac ethos.

Nid yw'r Cyngor yn rhagweld y bydd y trefniadau dros dro yn cael effaith andwyol ar safonau addysg. Bydd gwaith monitro parhaus yn cael ei wneud i sicrhau bod unrhyw broblem sy'n codi yn cael ei nodi ac yn cael ei datrys yn brydlon.